PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

75c | Rhif 467 | Mawrth 2024

## Ennill cadair



t.19

## Dyfodol Tregerddan




t.9

## Sgwrs gan Meg Ellis



t.4

## Priodas

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Eleanor Richards, Glanleri, Y Borth a Patrick Dear ar achlysur eu priodas yn Swindon canol mis Chwefror.






Cylch Meithrin Trefeurig yn dathlu Gŵyl Ddewi



Cai

## Codi arian i Ambiwlans Awyr Cymru

Llongyfarchiadau cynnes i Tommy a Cai Jones, Capel Bangor wrth iddynt wneud teithiau cerdded yn ddiweddar at Ambiwlans Awyr Cymru er cof am eu brawd Ned a gyfarfu a damwain angeuol ac yntau ond yn 5 mlwydd oed. Bu farw Ned ar Ddydd Gwener y Groglith yn 2016. Mae Cai yn 9 oed a Tommy yn 16eg erbyn hyn ac mae'r ddau yn awyddus i gwblhau sialensau rhedeg er cof am eu brawd ac er budd yr Ambiwlans Awyr. Targed Cai oedd 13 milltir, gan wneud 2 filltir y dydd, a chwblhau'r dasg ar yr 2il o Fawrth, diwrnod pen blwydd Ned. Tommy ar y llaw arall yn gobeithio cwblhau 10 kilo yn hwyrach yn y flwyddyn, gan ei fod yn aelod brwd o Glwb Athletau Aberystwyth. Mae cyfanswm yr arian a godwyd erbyn hyn yn £2,282. ardderchog fechgyn at achos mor deilwng ac er cof am eich brawd annwyl, Ned.

Llun: Beverley Hemmings



Pêl-droed Penrhyn-coch - gweler t7.

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 07737 622034
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 07939 652273
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, 38 Heol Alun, Waunfawr, Aberystwyth, SY23 3BB
Ebost: ionadavies752@btinternet.
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 07910 720422
hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY
cetmorgan@icloud.com 07966 510195
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**ADOLYGIADAU LLYFRAU**
**Llinos Dafis**, Cedrwydd, Llandre
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Heulwen Lewis**, Deiniol, Capel Bangor
☎ 880413 heulwenlewis@btinternet.com
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Ebrill: Dyddiad cau** – Ebrill 5; **Dyddiad cyhoeddi** – Ebrill 17

**MAWRTH**

22 Nos Wener. Trwy'r tannau - Mair Tomos Ifans a Sioned Webb yng Nghanolfan Arad Goch am 7.30.
Pris: £14 (Gostyngiad £12)

22 Dydd Gwener. Ysgolion Ceredigion yn cau am wyliau'r Pasg

23 Nos Sadwrn. Cinio Gŵyl Ddewi Cymdeithas y Penrhyn yn Poppys, Capel Dewi

30 Dydd Sadwrn. Llan Llanast y Pasg yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch o 10.00-12.00. Croeso i blant a theuluoedd ymuno ar gyfer crefft, stori a dathlu.

30 Nos Sadwrn. Cofiwch droi y clociau ymlaen heno.

**EBRILL**

5 Nos Wener. Sioe Ffasiwn Sioe'r Cardis yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch am 7.30. Tocynnau - £12.00 (yn cynnwysprosecco a nibbles) – o Garej Penrhyn-coch neu Facebook 'Sioe'r Cardis'.

6 Nos Sadwrn. Dylan Morris a Côr PamLai? yng Ngwesty Llety Parc, AberystwythTocynnau ar gael o Llety Parc 01970 636333

8 Dydd Llun. Ysgolion Ceredigion yn ail-agor ar ôl gwyliau'r Pasg

13 Nos Sadwrn. Ffair wanwyn PATRASA yn Neuadd y Penrhyn o 2.00-5.00 Crefftwyr a busnesnau bach lleol

19-20 Nos Wener. (4.00) a dydd Sadwrn (1.00 a 6.00) Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch yn Neuadd y Penrhyn

26 Nos Wener. Noson lawen y Maer – codi arian at Hafan y Waun gyda Rhys Taylor a'r band; Adran Aberystwyth; Elen Pen-cwm. Arweinydd: Sara Gibson £15 (£10) 01970 623232 artstaff@aber.ac.uk

27 Dydd Sadwrn. Ocsiwn o Baentiadau a Darluniau y diweddar Hugh a Alan Jones, Panteg, dydd Sadwrn, 27 Ebrill yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch. Rhwng 3.00 a 4.00

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer – mis Chwefror 2024

**£25** (Rhif 76) Robert a Gillian Dobson, Dorlan Penrhyn-coch
**£15** (Rhif 144) Alan Wynne Jones, Tren y Ddol, Bow Street
**£10** (Rhif 191) Mair England, Pant y Glyn, Llandre

Fe dynnwyd y rhifau buddugol ym Mhwyllgor Sioe Capel Bangor
Cofiwch os ydych yn aelod o'r Cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch wybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970 880228 neu ar ebost m.e.bebb@talk21.com

Diolch i'r rhai sydd wedi ail ymaelodi am y flwyddyn nesaf.

**RHODD**

Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhodd isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

**Cyngor Cymuned Trefeurig £200**

**Eglwys St. Pedr Elerch**

Cynhelir gwasanaeth dwyieithog o'r Cymun Bendigaid ar Sul y Pasg, 31 Mawrth, am 2.00 o'r gloch dan ofal Y Parchg Lynn Rees. Croeso i bawb.


Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.


**Lluniau i'r Tincer**

Croesawn dderbyn lluniau trwy e-bost ond lle digwydd hynny dylent fod mewn fformat jpg.
**NI DDYLID EU RHOI MEWN DOGFEN WORD.**


CYMRAEG
Ariennir y Tincer yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

## 30 mlynedd yn ôl



Joanna Glover, Steffan Harries, Sion Griffiths, Rhyan Sutton a Tom Meachen, yr enillwyr yn 9eisteddfod) Ysgol Pen-llwyn (o'r *Tincer* Mawrth 1994)

YTincer@googlemail.com




# Addysg Heddwch - Ysgolion Heddychlon

"Pan dwi'n teimlo'n grac dwi'n mynd am dro gyda fy nghi." "Pan dwi'n becso am rywbeth dwi'n siarad â fy ffrind gorau." "Dwi'n chwarae pêl-droed."

Roedd plant 10 ac 11 oed yn trafod sut mae delio â theimladau anodd, wrth eistedd mewn cylch a chymryd troeon i siarad.

Roeddent yn cymryd rhan mewn rhaglen Ysgolion Heddychlon, a ddatblygwyd gan Grynwyr Canolbarth Cymru ac sy'n cael eu rhedeg yn dymhorol trwy ysgolion cynradd Gogledd Ceredigion a Phowys ers 2016.

Diwedd y llynedd, bu Medi James, Jane Powell ac Andrew Capel yn rhedeg y rhaglen yn Ysgol Penrhyn-coch ac Ysgol Rhydypennau. Gyda thair sesiwn awr a hanner yr un, dechreuon nhw trwy drafod sut mae rheoli emosiynau anodd, yn enwedig pryder.

Wedyn aethon nhw'n ymlaen i archwilio sut mae trin gwrthdaro trwy wrando a gweld safbwynt pobl eraill yn lle taflu bai. Yn y sesiwn olaf, y pwnc oedd profiad ffoaduriaid, gan drafod effeithiau rhyfel.

Mae'r sesiynau'n llawn amrywiaeth, gyda gêmau cydweithredol, trafodaeth mewn grwpiau bach, actio ac ymarferion anadlu meddylgar.

A beth oedd barn y plant? Ysgrifennodd un bachgen ar y diwedd: "Heddwch i fi yw helpu ffrindiau. Eistedd mewn gardd dawel efo fy nghi. Pan mae pawb yn cydweithio a gwrando ar ei gilydd. A helpu pobl mewn angen."

Ond falle mai prif nerth y rhaglen yw rhoi blas ar ffordd o fod gyda'n gilydd lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu siarad yn agored, a bydd gweddill y cylch yn gwrando arnyn nhw gyda pharch.

Fel dywedodd un ferch: "Roedden ni wedi mwynhau'r cyfan achos oedd e'n ddiddorol iawn a difyr."

Rydym wastad yn chwilio am wirfoddolwyr i ddod allan i ysgolion gyda ni. Fe roir hyfforddiant syml a rhaid cael y ffurflenni priodol i weithio gyda phlant. Mae'n cymryd tuag awr yr wythnos o'ch amser am chwech wythnos ar y tro. Mae cael bod yng nhwmni plant yn sbort ac yn codi'r ysbryd.

Cysylltwch trwy: www.addysgheddwchpeaceedu.org.uk

**Jane Powell**





# Bow Street

**Suliau'r Garn**

*Mawrth*

24 Rhidian Griffiths
29 Y Groglith Capel Seion
31 Sul y Pasg Oedfa'r ofalaeth

*Ebrill*

7 Noddfa
14 Bugail
21 Bugail
28 Noddfa R Lewis

**Noddfa**

*Mawrth*

24 Richard Lewis
31 Sul y Pasg Richard Lewis

*Ebrill*

7 Richard Lewis. Y Garn yn Uno.
14 Richard Lewis. Cymundeb.
21 Y Gyfeillach yng ngofal Maria Owen
28 10.00 a 5.30 Cymanfa Ganu Bethel, Tal-y-bont

**Marwolaeth**

Cydymdeimlwn â theulu y ddiweddar Mrs Mair Davies, Brynsiriol, (Mair yr Hairdresser) fu farw yn sydyn ar 17 Chwefror – wythnosau yn unig ar ol colli ei chwaer yng nghyfraith a'i chymdoges, Gwen. Roedd Mair yn fam i Heulwen ac Alun a Nain i Lisa, Heledd, Elinor, Gethin a Rhodri. Bydd y gornel fach yma o Bow Street yn wag iawn hebddynt o hyn ymlaen.

Cydymdeimlwn hefyd â Maria a John Owen a'r teulu, Gerddi Gleision. Bu farw modryb i Maria, sef Mrs Annetta Jarvis, gynt o Abercorris Stores, Corris, yn 96 oed.

Trist hefyd oedd clywed am farwolaeth Mrs Kathleen Evans, Caerdydd dydd Gwener 26 Ionawr yn Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd. Priod y diweddar Dr W. Gareth Evans, mam Dr Rhodri a Rhys, Evans. Bu yn aelod staff Ysgol Rhydypennau diwedd y 70au/dechrau yr wythdegau. Derbyniwyd rhoddion er cof tuag at Urdd Gobaith Cymru.

**Merched y Wawr Rhydypennau**

Cafwyd prynhawn difyr iawn yng nghwmni Elisabeth Wyn a'i bocs atgofion oedd wedi ei wneud o bren gan ei thad. Cawsom hanes y trysorau oedd yn mynd yn ôl a hi iw phlentydod yn Ninas Mawddwy. Mae wedi ennill sawl gwobr am ei gwaith crefft a'i arlunio ac wedi teithio yn eang, gan gynnwys India a China.

**Enillydd ifanc**

Llongyfarchiadau i Elan - wyres Vernon Jones, Gaerwen, ar ennill cadair eisteddfod Ysgol Glanrafon, yr Wyddgrug .. dim ond rhyw gant arall i ddal fyny efo dad-cu!!

## Capel y Garn




Fore Sul cyntaf mis Chwefror bu aelodau'r Garn yn cyd-addoli â chynulleidfa Capel Noddfa yn Noddfa. Y Gweinidog, Y Parch Watcyn James, fu'n gwasanaethu yn y Garn ar Chwefror 11eg a'r Parch Ddr John Tudno Williams ar Chwefror 18. Ar Chwefror 25ain, cafwyd gwasanaeth teuluol wedi ei seilio ar hanes Dewi Sant, dan arweiniad ein Gweinidog. Braf oedd clywed lleisiau ifainc o fewn y muriau. Daeth Cymdeithas y Chwiorydd ynghyd ar Chwefror 7fed i gael paned a threfnu eu gweithgareddau dros y mis i ddod.

"O Langeitho i'r Tŷ Gwyn" oedd teitl sgwrs Meg Ellis i'r Gymdeithas Ddiwylliannol ar Chwefror 16eg, pryd y cawsom hanes Deiseb Heddwch Merched Cymru i America, a arweiniwyd, union gan mlynedd yn ôl, gan famgu Meg Ellis, Annie Hughes Griffiths. Bu Gwreiddiau yn cwrdd bob bore Iau yn festri'r Garn ac ar zoom i chwilota, dysgu, trafod a chydystyried, a chael ysbardun i'r meddwl hyd y tro nesaf. Diolch i'r Gweinidog am ein harwain.

**Noddfa**

Roedd y Gyfeillach ar y 18fed o Chwefror fel un mis Ionawr yng ngofal Mair Lewis a'r tro yma yr oedd wedi trefnu bod Elliw Dafydd, merch ifanc o ardal Rhosygarth ger Llanilar, yn dod atom fel gwestai arbennig i ddweud peth o'i hanes. Wrth ei chyflwyno eglurodd Mair bod y ddwy yn adnabod eu gilydd ers dyddiau dysgu adrodd a'i bod yn rhyfeddu at yr hyn y mae wedi ac yn ei gyflawni o ddydd i ddydd. Wedi graddio o Brifysgol Bangor aeth ymlaen i wneud gradd uwch ym Mhrifysgol Birmingham a thra ym Mirmingham bu'n gweithio fel plismones am gyfnod. Bu'n gweithio yn Llundain am gyfnod hefyd ac ar hyn o bryd y mae'n weithgar gyda'r ymdrech gymunedol i brynu hen ysgol Cribyn er mwyn troi y lle yn adnodd cymunedol lleol, hyn yn ychwanegol i'w gwaith gyda mudiad y Ffermwyr Ieuanc. Ar ben hyn yr oedd wedi treulio cyfnod beth amser yn ôl yn gwirfoddoli mewn gwersyll ffoaduriaid i ferched yn Ffrainc ac am y cyfnod hwn yn ei hanes y bu'n siarad â ni. Yr oedd yr hyn a ddywedodd wrthym am ei phrofiad yn y gwersyll ac am y sefyllfa yno yn wirioneddol syfrdanol ac nid gormod yw dweud i ni gael ein llorio gan yr hanes. Fel arwydd o'n penderfynwyd gwneud casgliad i hyrwyddo'r gwaith hwnnw ac mae'n bleser medru adrodd bod y casgliad hwnnw wedi bod yn un anrhydeddus iawn.



## Cwis

Bu tipyn o grafu pen a thrafod yn Neuadd Rhydypennau, Bow Street, 12 Mawrth, wrth i dimau o bobl leol fynd benben â'i gilydd mewn cwis. Gareth William Jones oedd y cwisfeistr campus, a chafwyd rowndiau o bob math ganddo, gan gadw pawb yn brysur wrth ddyfalu'r atebion. Tîm y Llyfrbryfaid ddaeth i'r brig – Delyth Ifan, Meinir Edwards, Nest Gwilym, Nia Peris a Huw Meirion. Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw! Hoffai canghennau lleol y Blaid, fu'n trefnu'r noson, ddiolch i bawb fu'n helpu gyda'r trefniadau, gyda diolch yn arbennig i Gareth William am fod yng ngofal y cwis – a diolch i bawb am gefnogi.







Cylch Meithrin Rhydypennau yn dathlu Diwrnod y Llyfr.

**Dathlu**
Erbyn y gwêl y geiriau hyn olau dydd fe fydd yna ddathlu mawr wedi bod ar sawl aelwyd yn Bow Street. Bydd Gwyn a Brenda Jones, Glyn Teg, Y Lôn Groes, wedi dathlu eu priodas ddiemwnt ar y 14eg o Fawrth, a bydd Sian Powell, Maes Ceiro, wedi dathlu ei phen blwydd yn 60 ar y 12fed o Fawrth. Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da iddynt.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlir yn ddiffuant â Lisa a Dean, Dolmaelgwyn, ar farwolaeth Mrs Mair Davies, Brynsiriol, sef mam-gu Lisa. Mae'n chwith meddwl bod Gwen a Mair wedi'n gadael ni mor agos i'w gilydd.





YTincer@googlemail.com

**DARLITH FLYNYDDOL MORLAN-PANTYFEDWEN 2024**

Darlith gan **Yr Athro Virginia Gamba**
**Cynrychiolydd Arbennig Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd**

Unedig dros Blant a Gwrthdaro Arfog
**NOS FAWRTH, 9FED O EBRILL, 2024**
**5.30 O'R GLOCH**
yng Nghanolfan Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth
**CROESO I BAWB!**
Canolfan Morlan / Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen
**01970 612806 / post@jamespantyfedwen.cymru**



# Penrhyn-coch

**Suliau Horeb**

*Mawrth*

24 10.30 Beti Griffiths

29 Gwener y Groglith 10.00 Eglwysi Aberystwyth ym Methel, Aberystwyth. Pregethwr : Y Parchg Peter Thomas

31 Sul y Pasg Wyn Morris – 2,30 ym Methel

*Ebrill*


7 2.30 Oedfa gymun Peter Thomas

14 10.30 Peter Thomas

21 10.00 Joyce Howells ym Methel

28 10.00 a 5.30 Cymanfa Ganu Bethel, Tal-y-bont

Llongyfarchiadau i Casi Vearey-Roberts ddaeth yn ail ar yr unawd cerdd dant Bl 2 ac iau a 1af ar yr unawd cerdd dant Bl 2 gan ddod yn gyntaf eto yn yr Eisteddfod Ranbarthol ar yr olaf . Pob hwyl ym Meifod!






Brownies Penrhyn-coch wedi mwynhau trefnu blodau ar gyfer Sul y Mamau.

**Pen blwydd arbennig**

Pen blwydd hapus iawn i Mair Jenkins, Cwmbwa, a fydd yn dathlu pen blwydd arbennig ar 24 Mawrth.

**Genedigaethau**

Llongyfarchiadau i Patricia Moore, gynt o Faesyrefail, ar ddod yn fam-gu eto; ganwyd Mali Martha i Sinead a Guto Humphreys yng Nghaerdydd. Pob dymuniad da i'r teulu bach.

Llongyfarchiadau i Lynn ac Emma Rees, Y Ficerdy, ar ddod yn fam-gu a thad-cu – ganwyd merch - Poppy Lilian i'r mab Tommy a'i bartner ddiwedd Chwefror.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Steffan Evans, Rhoshelyg. Gogerddan ar farwolaeth ei dad-cu, yn Aber-porth ac a Eirian a Wendy Reynolds, Ger-y-llan ar farwolaeth cefnder yn Sir Fon.

Cydymdeimlwn â theulu Stephen Williams, Llys y Coed, Bro Gogerddan fu farw yn ei gartref dydd Sul 18 Chwefror. Tad Sandra, Peris, Eurwyn a'r diweddar Eric. Bu'r angladd yn Amlosgfa Aberystwyth ar Fawrth 8.

## John Ifor Jones (1926-2024)


Pleser o'r mwyaf i bawb ddaeth i'w adnabod oedd cael bod yng nghwmni John Ifor Jones, un na ellir ei ddisgrifio ond fel gŵr bonheddig, urddasol, diffuant a charedig.

Ganwyd ef ar 30 Awst 1926 yn y Rhyl, yn fab i John Thomas Jones a'i wraig, Elizabeth Jane. Ef oedd eu trydydd plentyn. Ar y rheilffordd yr oedd yn ei dad yn gweithio, a'i fam wedi ei hyfforddi yn nyrs. Pan oedd John Ifor yn ddim ond pump oed bu farw ei fam, a'u modryb Margaret fu'n gofalu am y plant wedyn.

Wedi mynychu Ysgol Gynradd Christ Church ac Ysgol Ramadeg y Rhyl, dechreuodd John Ifor ei yrfa yn 14 oed fel telegram boy i'r Swyddfa Bost. Bu hefyd yn y fyddin. Anfonwyd ef i'r Eidal gyda'r Royal Corps of Signals, a datblygodd yn deipydd anghyffredin o chwim yno.

Wedi iddo ddychwelyd i'r Rhyl, dyrchafwyd ef yn glerc yn y Swyddfa Bost. Cyfarfu hefyd a Lily Eirwen Jones, a dyweddïo â hi. Er mwyn medru gosod blaendal ar dŷ, aeth i weithio yn Rhodesia (Zimbabwe), ond dilynodd Lily ef yno a phriodwyd hwy yn Salisbury ar 27 Hydref 1951.

Daethant yn ôl i Gymru ac ymgartrefu eto yn y Rhyl. Yn dal yn y Swyddfa Bost, dyrchafwyd John Ifor yn Arolygwr, yna yn Bostfeistr Gweithredol, ac wedi hynny yn Bostfeistr Caernarfon.



Er mwyn ehangu ei brofiad, aeth yn Ddirprwy Bostfeistr i Telford. Wedi hynny, daeth yn Brif Bostfeistr Aberystwyth am gyfnod byr ym 1979-80, a byw ym Mhenrhyn-coch cyn symud eto i fod yn Brif Bostfeistr Caerfyrddin o 1980 hyd ei ymddeoliad ym 1986.

A dyma ddod yn ôl i Benrhyn-coch. Tra'r oedd Lily yn gwirfoddoli gyda'r Samariaid, 'roedd John Ifor yn brysur gyda Chyfeillion y mudiad. Yr oedd hefyd yn gwirfoddoli gyda 'Cyngor ar Bopeth' ac yn mwynhau'r gwaith.

Wrth i'r blynyddoedd fynd heibio, dechreuodd iechyd Lily ddirywio. Bydd amryw yn ei chofio fel gwraig garedig, hael, a mawr ei gofal dros bawb. Daeth i ben ei thaith ym mis Ebrill 2008 a mawr oedd hiraeth John Ifor amdani.

Rhan o gyfrinach ei allu i ymdopi â'i alar oedd ei ysbrydoledd dwfn. Yn hyddysg yn ei Feibl, yr oedd ei ymlyniad wrth y ffydd Gristnogol, a Lily gydag ef, yn arbennig o ddwfn. Bu'n ddiacon ac athro Ysgol Sul mewn amryw o eglwysi, ac yn Ysgrifennydd yr eglwys a'i magodd, sef Carmel, Y Rhyl.

Un di-gŵyn, yn gwerthfawrogi pob caredigrwydd oedd y gŵr hynaws hwn.

Wedi cyfnod yn yr ysbyty y llynedd, ymgartrefodd yn Nghartref Gofal Glyn Nest yng Nghastellnewydd Emlyn. Cymerwyd ef i'r Ysbyty yng Nglangwili ym mis Ionawr, ac yno y bu farw ar 16 Chwefror yn 97 oed.


Cydymdeimlwn yn ddwys â'i feibion, Owain a Gethin, a'u teuluoedd yn eu hiraeth, ac ni allwn ond diolch ein bod wedi cael adnabod John Ifor, a mwynhau ei gwmni.

**Geraint Tudur**

## Cymdeithas y Penrhyn

Glyn Parry, sy'n dod yn wreiddiol o Edern, ym Mhenrhyn Llŷn, ac a fu'n archifydd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru am flynyddoedd, oedd ein siaradwr gwadd ym mis Chwefror. Testun ei sgwrs oedd Y Cod Gwaedlyd: Trosedd a Chosb yng Nghymru o 1730 hyd 1830. Mae Glyn wedi gwneud llawer o ymchwil i'r pwnc ac fe gyhoeddodd lyfr ar y mater o'r enw *Naid i Dragwyddoldeb - Trosedd a Chosb 1700-1900* (Llyfrgell Genedlaethol Cymru) yn 2001.

Y Cod Gwaedlyd oedd y corff o droseddau, dros ddau gant i gyd erbyn diwedd y ddeunawfed ganrif, y gallech gael eich crogi amdanynt ym Mhrydain. Roedd llawer o'r troseddau hyn yn ymwneud â dwyn a'r man lle'r oedd hynny'n digwydd.



Doedd dim heddlu yn bodoli tan y 1850au, dim ond cwnstabliaid di-dâl, a'r dioddefwyr oedd yn gorfod talu holl gostau achosion llys. Roedd mileindra'r cod, ystyried enw da troseddwr honedig, ac iaith y llys (Saesneg ar gyfer Cymry oedd yn aml yn uniaith) i gyd yn dylanwadu ar barodrwydd i fynd â throseddwyr o flaen eu gwell. Y canlyniad oedd bod llawer o dioddefwyr yn osgoi erlyn ac yn ymarfer trugaredd. Diolch i Glyn am roi darlun ysgytwol a diddorol i ni o'r system gyfiawnder yng Nghymru yn y cyfnod dan sylw.

## Merched y Wawr Penrhyn-coch



Cafwyd noson yng nghwmni mam a merch,- Meinir ac Angharad Davies, Ponterwyd. Dechreuodd Angharad gwmni Halibalwn, yn gwneud addurniadau ac anrhegion o falwns. Pob lwc iddi yn ei swydd newydd, gyda CFfI.





**Clwb Sul Horeb**
Aelodau Clwb Sul Horeb yn hapus iawn gyda'u basgedi o wyau Pasg.






Cylch Meithrin Trefeurig yn dathlu Diwrnod y Llyfr.

**PÊL-DROED PENRHYN-COCH**
**Tim cyntaf**
24/02 - Cwpan Amatur CBC 23/24 Blaendulais Onllwyn 1 Penrhyn-coch 4

**Cynghrair**
02/03 Llansantffraid 1 Penrhyn-coch 5
09/03 Dolgellau 0 Penrhyn-coch 3
13/03 Penrhyn-coch 1 Bow Street 1

**Eilyddion**
23/02 Eilyddion Penrhyn-coch 3 Eilyddion Dolgellau 1
09/03 Eilyddion Bow Street 4 Eilyddion Penrhyn-coch 2



Llun: Beverley Hemmings






**y tincer**

YTincer@googlemail.com


## EISTEDDFOD GADEIRIOL PENRHYN-COCH 19-20 EBRILL 2024

**Testunau Cartref**

Dyma destunau llên yr Eisteddfod; y beirniad yw Ivoreen Williams, Saron, Rhydaman a dylai cyfansoddiadau gael eu gyrru trwy'r post i'r Ysgrifennydd Ceris Gruffudd, Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3HE neu e-bost i Ceris. Gruffudd@gmail. com cyn 2 Ebrill 2024.

1. Cadair: Cerdd gaeth neu rydd heb fod dros 50 llinell –'Lleisiau'. (Cadair fach a £50.00) Er cof am Ifan ac Aeronwy James,Cae Mawr, a Cerys Webber, yn rhoddedig gan y teulu.
2. Englyn yn cynnwys enw unrhyw lyn. (£10.00)
3. Telyneg: 'Llonyddwch'. (£10.00)
4. Limrig yn cynnwys y llinell: "I'r Borth aeth Wil i ymdrochi'. (£10.00)
5. Cerdd yn ymwneud â Byd Natur. (£10.00)
6. Brawddeg: GWLEIDYDDION. (£10.00)
7. Stori Fer – wedi ei seilio ar unrhyw ddigwyddiad mewn Ysgol Uwchradd. (£10.00)
8. Erthygl i bapur bro: Atgofion tîm pentref (pêl-droed, rygbi ayyb) NEU Hanes Eisteddfod Bentref neu Gapel nad yw'n bod mwyach. (£10.00)
9. Adolygiad o unrhyw nofel Gymraeg a gyhoeddwyd yn 2023/ 2024. (£10.00)
10. Tlws yr Ifanc (Cerddorol) i rai dan 21 oed:

    Cyfansoddi darn cerddorol lleisiol neu offerynnol.
    Beirniad: Trystan Lewis. Y gwobrau yn rhoddedig gan Aaron ac Ashley Stephens (Tlws a £20.00)
    Gwobrwyir enillydd Tlws yr Ifanc ar y nos Wener

## Cyngor Cymuned **Trefeurig**

Cyfarfu'r Cyngor **nos Fawrth 16 Ionawr 2024** yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch am 7.00pm. Cadeiriwyd gan y Cadeirydd, Eirian Reynolds. Roedd y cynghorwyr Mel Evans, Delyth James, Shân James, Dai Mason a Richard Owen yn bresennol ynghyd â'r Clerc.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod, ac roedd un o'r cyhoedd yn bresennol sef Andrew Curley. Roedd wedi dod i'r cyfarfod gan ei fod yn awyddus i godi coeden Nadolig ar dir y Clwb Pêl Droed, ac yn awyddus i gael cefnogaeth y Cyngor Cymuned. Roedd y Cyngor yn eithaf cefnogol mewn egwyddor, a gofynnwyd i Mr Curley ddod â rhagor o fanylion am y cynllun pan fyddent ar gael.

Materion yn codi: Goleuadau stryd – penderfynwyd cysylltu gyda'r Cyngor Sir i holi am y camau nesaf ynglŷn â gosod y golau newydd ger y sgwâr a hefyd y posibilrwydd o gael un ger Maesyrefail. Clwb Pêl Droed – roedd y Clerc wedi holi'r Cyngor Sir am gael wyneb newydd ar faes parcio'r Clwb. Roedd y Cyngor wedi ateb gan fod y tir dan lês, yna cyfrifoldeb y Clwb oedd cynnal a chadw'r maes parcio.

Cynllunio: A240014 – cais i gael mynedfa newydd i'r stad newydd gyferbyn â Horeb. Roedd y Cyngor o'r farn y dylid sicrhau palmant addas o'r stad uwchben Horeb cyn ystyried y cais hwn. A230906 – newidiadau yng Nghefn Meurig, Penrhiwnewydd; dim sylwadau. A230754 – Capel Salem – newid y capel i fod yn dŷ, gyda rhai estyniadau; roedd y Cyngor yn awyddus i sicrhau fod pobl yn dal i fedru ymweld â'r fynwent, a bod y fynwent yn cael ei chynnal yn daclus.

Archebiant ar gyfer 2024/25 – penderfynwyd gosod yr archebiant yn £18,000.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth 20 Chwefror 2024 yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch am 7.00pm. Cadeiriwyd gan y Cadeirydd, Eirian Reynolds. Roedd y cynghorwyr Llywelyn Evans, Delyth James, Dai Mason, Gwenan Price a Meirion Roberts yn bresennol ynghyd â'r Cynghorydd Sir, Caryl Gruffydd Roberts, a'r Clerc.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod a dymunwyd gwellhad buan i'r Cynghorydd Lowri Emlyn.

Materion yn codi: Maes Seilo – roedd Caryl Roberts yn ymwybodol fod y trigolion wedi derbyn llythyrau gan y Cyngor Sir yn gofyn iddynt ddarparu tystiolaeth fod ganddynt hawl tramwy i'r tir tu draw i'r stad erbyn 19 Chwefror. Doedd dim gwybodaeth bellach ar gael. Goleuadau stryd – dim gwybodaeth bellach. Y bont ger Glanceulan – doedd dim wedi'i wneud am yr iorwg oedd yn tyfu ar y bont. Y Clerc i gysylltu eto, gan egluro y gallai'r tyfiant wneud drwg parhaol i'r bont.

Cyfarfodydd a fynychwyd: roedd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd wedi bod mewn cyfarfod a drefnwyd rhwng cynghorau cymuned gogledd y sir a Chadeirydd a rhai o brif swyddogion Cyngor Ceredigion. Roedd sefyllfa ariannol y Cyngor Sir yn ddifrifol iawn yn dilyn toriadau dros flynyddoedd lawr gan y Llywodraeth Doriaidd yn Llundain a thuedd y Llywodraeth Lafur yng Nghaerdydd i ffafrio'r ardaloedd trefol ar draul yr ardaloedd gwledig. Roedd yn amlwg fod y Cyngor Sir yn awyddus i'r cynghorau cymuned ysgwyddo rhai o'r cyfrifoldebau a oedd ar hyn o bryd yn perthyn i'r Cyngor Sir.

Roedd adroddiad llawn wedi'i dderbyn gan Caryl Gruffydd Roberts am ei gwaith fel cynghorydd sir.

Materion eraill: Tynnodd Eirian Reynolds sylw at yr angen i ddelio gyda'r tyllau yn y ffyrdd yng Nger-y-llan ac ym mynedfa Glanceulan.

# Dyfodol Cartref Tregerddan

Ar 29ain o Chwefror, penderfynodd Cyngor Sir Ceredigion ‘adolygu’r opsiynau’ oedd ar gael ynglŷn â dyfodol Cartref Tregerddan, gan edrych ar bartneriaethau posib gyda’r Bwrdd Iechyd i lawn ddefnyddio Cartref Hafan y Waun, Aberystwyth. I bob pwrpas, beth mae hyn yn ei olygu yw cau Cartref Tregerddan ac adleoli’r trigolion a staff i Hafan y Waun. Bwriad y penderfyniad yw arbed £350,000 o gyllideb y Cyngor Sir. Ers Tachwedd 2023 y Cyngor Sir sydd berchen Hafan y Waun ac ar hyn o bryd ychydig dros hanner o’r 90 gwely yno sy’n cael eu defnyddio.

Daeth y wybodaeth am gau gwasanaeth allweddol yn ein cymuned fel cryn syndod i’r trigolion, eu teuluoedd, y staff ac yn sicr i Ffrindiau Cartref Tregerddan. Doedd neb yn ymwybodol bod penderfyniad ag oblygiadau mor bell-gyrhaeddol yn cael ei drafod - dim gohebiaeth, dim ymgynghori, dim byd. Yr hyn sy’n fwyaf siomedig, ‘doedd yr un Cynghorydd Sir lleol wedi tynnu sylw at hyn. Onid rôl Cynghorwyr Sir yw diogelu gwasanaethau yn eu cymunedau?

Mae Cartref Tregerddan yn rhan o’r gymuned yng ngogledd Ceredigion. Mae parodrwydd gwirfoddolwyr i godi arian, a’r cyhoedd yn gyffredinol i fynychu digwyddiadau codi arian Ffrindiau Tregerddan, yn adlewyrchu’r berthynas agos â’r gymuned. Daw’r arian drwy ddigwyddiadau, ceisiadau grant, cymynroddion a nawdd hael gan y cynghorau cymuned lleol. Dros y blynyddoedd mae’r Ffrindiau wedi prynu’r ‘pethau bach’ sy’n gwneud bywyd ychydig yn haws i’r trigolion a hefyd wedi buddsoddi mewn adnoddau i’r Cartref sydd y tu allan i gyllidebau’r Cyngor Sir. Fe adeiladwyd heulfan a lloches ambiwlans, adnewyddwyd cegin i deuluoedd, prynwyd anrhegion Nadolig, papurau newydd, setiau teledu, offer cyfathrebu, gwelyau a lifftiau arbenigol, a chadeiriau olwyn i enwi dim ond ychydig. Ariannwyd gweithgareddau i ddiddanu’r trigolion, ni yw’r gymdeithas cyfeillion mwyaf gweithgar yng Ngheredigion gyfan.

Ond nid yw popeth yn fêl i gyd. ‘Roedd adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru ym Mehefin 2023 yn canmol y staff a’r gofal ond yn beirniadu’r adeilad. Gwnaed peth gwaith i wella diwyg yr adeilad ers hynny ond rhaid derbyn bod yr adeilad yn hen, ddim yn hollol addas, nac yn llawn gyrraedd safonau disgwyliedig gofal cyfoes. Er enghraifft, does dim ystafelloedd gwely en suite. I raddau mae buddsoddiad y Cyngor Sir yn Hafan y Waun wedi amddifadu Cartref Tregerddan o fuddsoddiad pellach.

Ond yr hyn sy’n fwy pwysig yw’r gofal a pharhad y gofal. Mae unigolion sy’n symud o’u cartref oes i gartref gofal yn ei weld yn gam mawr ac yn aml yn drawma emosiynol. Ar ôl setlo a chreu cartref newydd mae perygl bod symud eto yn ail-ddeffro’r ansicrwydd emosiynol - nid yw hyn yn llesol.

Mae’n debyg bydd Cabinet y Cyngor yn penderfynu ar y camau nesaf ar 19eg Mawrth. Gallwn ond gobeithio y byddant yn cytuno i gael proses ymgynghori. Mae’n anodd dyfalu amserlen ond bydd penderfyniad terfynol y naill ffordd neu’r llall yn yr Haf neu’r Hydref eleni. Os mai cau Tregerddan yw’r bwriad bydd hynny yn digwydd yn Hydref 2024 neu Gwanwyn 2025. Gobeithio na ddaw i hynny.

O ran y Ffrindiau, rydym am weld y gwasanaeth a’r cyswllt allweddol gyda’r gymuned yn parhau. Fe fyddwn yn aros am yr ymgynghoriad cyn dod i benderfyniad terfynol ynglŷn â’r dyfodol.

**Penri James, Cadeirydd Cyfeillion Tregerddan**


GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

Rhif 152 Hydref 1992

ACHUB CARTREF TREGERDDAN

Geraint o Bonterwydd yn y cyfarfod cyhoeddus Rhydypennau.
Llun: Anthony Pugh

Yr Arglwydd Geraint o Bonterwydd, Mr Berwyn Lewis (Cadeirydd Cyfeillion Tregerddan), Alwen Elystan Morgan, Y Parch Elwyn Pryse, Mrs Margaret Rees (Ysgrifennydd y Cyfeillion), a'r Cynghorwyr Gwynfor Jones, Raymond Jones (Ysgrifennydd),

sector gyhoeddus ar gyfer 2,000 o boblogaeth dros 75 oed, honid bod 93 yn ormod o welyau. Er boddhad i'r grwp ymgyrchu bu'r cynghorwyr yn ddigon doeth i sylwi ar anhegwch yr argymhelliad gan fod y fformiwla wreiddiol yn ffug; fe'i seiliwyd ar ystadegau yn hytrach nag ar y sefyllfa fel y mae gan fod holl welyau yr ardal yn llawn. Gwrthododd y pwyllgor yr adroddiad, a hynny o fwyafrif. Roedd yn rhaid iddynt gael sêl bendith y Cyngor llawn ac ar ddydd Mawrth, Hydref 13 dyna ddigwyddodd pan gafwyd pleidlais unfrydol dros gadw'r

Cartref; codwyd dros £10,000 yn ystod y blynyddoedd diwethaf; trefnwyd rhaglen reolaidd o gyngherddau ac adloniant ac yn aml gwelir y staff yn dychwelyd yn eu hamser eu hunain i gynorthwyo gyda'r gyrfaoedd chwist a nosweithiau agored.

GWIRFODDOLWYR

Ers i'r cartref agor ym 1979, cynhaliwyd gwasanaeth crefyddol pob Sul - tybed faint o gartrefi henoed eraill sydd yn

**Bydd y bleidlais am Dregerddan (agorodd ym 1979) yn digwydd tra bydd y Tincer yn y wasg. Mae Fforwm Gofal yr Henoed Gogledd Ceredigion hefyd wedi datgan siom fod y Cartref yn debygol o gau.Bu Tregerddan dan fygythiad o’r blaen – gweler clawr Tincer Hydref 1992 pan sefydlwyd Pwyllgor Ymgyrchu o gynghorwyr sir a bro. mwy o lawer o gapasiti fel y gŵyr unrhyw un sydd â chysylltiad â’r cartrefi gofal hyn. Gyda Ysbyty Bron-glais dan y straen ydy o yn gwneud synnwyr i gau cartref arall yng ngogledd y Sir – onid oes angen defnyddio Hafan y Waun a Thregerddan?**

## Cyngor Cymuned GENEUR GLYN

**Cofnodion ac Adroddiadau ar gael ar wefan y Cyngor:** cyngorcymunedgeneurglyncommunitycouncil.wordpress.com

**Dyddiad y Cyfarfod**: 26.02.2024 yn Ysgoldy Bethlehem, Debyniwyd 6 ymddiheuriad.
0 aelod o’r cyhoedd yn presennol.

**Trafodwyd**:
Gwaith i drwsio Lloches Bws Dôl-y-bont ar gwaith. Hysbysfwrdd Dôl-y-bont wedi’i drwsio ac yn ôl yn ei le. Pryder ynghylch faint o ddŵr glaw ar hyd y pentref.
**Materion Cyllid:** Adroddiad llawn ar gael ar wefan y Cyngor. Derbyniwyd llythyr gan CCC ynglyn y praesept. Cytunwyd i beidio a newid y ffigurau a gyflwynwyd eisoes.
**Parc a’r Cyrtiau Tenis**: Gwaith yn parhau i ddatblygu’r parc. Derbyniwyd grant oddi wrth Cronfa Eleri tuag at offer chwarae newydd. Trafodaethau gyda Cyngor Sir Ceredigion yn parhau yng â Les yr ardal.

**Adroddiad gan y Cyng Hugh Hughes**: Trafodaethau ynglŷn â Cyllideb y Sir. Cyfarfod cyhoeddus wedi’i drefnu yn y Borth yn ymwneud â cynlluniau Ynys-las gan CNC (01.03.2024).

**Cyfarfod nesaf**: Cynhelir cyfarfod nesaf o’r Cyngor ar 25 Mawrth 2024 yn Ysgoldy Bethlehem am 7.00yh.
Pauline Lucas: clercgeneurglyn@yahoo.com


SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Laurence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a’r Sul, cardiau cyfarch siop drwyddiedig
01970 828312

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ

01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

# LLE MAE NHW NAWR?

## Meinir Roberts

**(gynt Meinir Vaughan, Maesawel, Pen-llwyn)**

Gadewais wlad y Cardi yn 1974 pan es i'r Coleg Normal ym Mangor am bedair blynedd i astudio Cymraeg ac Addysg ac ennill gradd B.Add a darpar ŵr! Er mai cael fy hyfforddi i addysgu plant oed cynradd, yn y sector uwchradd yww ces i fy swydd gyntaf a hynny yn ysgol Pen-glais, Aberystwyth ac yn y sector uwchradd yr arhosais hyd nes penderfynu cymryd ymddeoliad cynnar yn 2013.

Swydd cyfnod byr o flwyddyn oedd fy swydd gyntaf yn ysgol Penglais. Roedd hi'n eithaf rhyfedd cyd-weithio yno efo rhai o'm cyn-athrawon o ysgol Ardwyn. Pan ddaeth y swydd yna i ben, cefais swydd dros dro arall am dair wythnos yn ysgol Aberconwy, Conwy ond yno bûm i nes ymddeol!

Athrawes Cymraeg fel ail iaith oedd fy swyddi cyntaf yn y ddwy ysgol. Ar y dechrau, roedd yn well gennyf ddysgu'r adran iau a chyn hir roeddwn yn bennaeth blwyddyn ac yna'n ddiweddarach yn ddirprwy bennaeth yr ysgol iau. Ymhen ychydig o flynyddoedd, dechreuais ymddiddori mewn cyfrifiaduron pan ddaeth y cyfrifiaduron BBC i'r ysgol. Enynnodd hyn ddiddordeb ynof am dechnoleg ac euthum ar gyrsiau i ddysgu mwy amdano. O dipyn i beth dechreuais ddysgu Technoleg Gwybodaeth i'r blynyddoedd iau a gweithio fy ffordd i fyny i fod yn bennaeth Technoleg Gwybodaeth a phennaeth y gyfadran Technoleg a dysgu bob safon gan gynnwys Safon A.

Ar ôl priodi yn 1980, a gan fy mod yn dysgu yng Nghonwy a Glyn yn dysgu yn ysgol Dyffryn Nantlle, Pen-y-groes, gwnaethom ein cartref ym Methel ger Caernarfon a ganwyd un mab i ni, Aled, yn 1984. Mae Aled bellach yn byw yn Rhydaman efo'i ddyweddi a'r plant ac yn gweithio fel peiriannydd sifil yng Nghaerdydd. Yn 2014 penderfynom symud i fyw i Lŷn ac yn agosach at deulu Glyn ac rydym wedi ymgartrefu y tu allan i bentref Pentreuchaf, Pwllheli. Buom yn ffodus o fedru ychwanegu ychydig o dir at yr hyn oedd wrth y tŷ ac mae Glyn wrth ei fodd yn edrych ar ôl y lle a thyfu llysiau. Rydym yn aelodau o gapel Llwyndyrys ac rwyf yn un o'r cyfeilyddion yno ac yn ogystal â bod yn ysgrifennydd yr ofalaeth.

Un o'n hoff bethau oedd teithio yn ystod gwyliau'r ysgol a buom yn ffodus i fedru teithio i lawer o wledydd Ewrop. Buom hefyd i rai gwledydd pellach fel mynd ar saffari i Kenya, Mauritius, Hong Kong, Bali ac Unol Daleithiau'r America. Ar ôl ymddeol, braf yw cael crwydro y tu allan i wyliau'r ysgol ac rydym wedi cael dau brofiad anhygoel o grwydro ac yn 2017 aethom i Seland Newydd. Cychwynnom yn ynys y gogledd a theithio i lawr i'r de wrth aros ar ffermydd a thai gwely a brecwast. Cawsom hefyd deithio i Batagonia efo criw o un ar bymtheg. Aethom i weld y rhewlifoedd a'r mynyddoedd iâ yn El Calefate yn y de yn gyntaf cyn hedfan yn ôl i Drelew. Pinacl y daith honno oedd cwrdd a chymdeithasu efo Cymry'r Wladfa a chawsom groeso twymgalon ym mhobman. Buom yn aros mewn gwestai bach ar hyd y lle er mwyn cael cyfarfod â'r bobl leol. Rhan gyntaf o'r daith oedd yn y Gaiman, ble y cawsom fynd i weld ble glaniodd y Cymry cyntaf ac ymweld â disgyblion ac athrawon yr ysgolion Cymraeg. Yna teithio ar draws y paith i Drevelin a bod yn rhan o ddathliadau pen-blwydd y dref a chyfarfod â disgyblion yr ysgol Gymraeg yno. Diweddglo'r daith oedd yn Buenos Aires a chael swper wrth wylio sioe dawnsio'r tango cenedlaethol. Cyn dod adref, croesom yr afon Plate a threulio ychydig o ddyddiau yn Uruguay.



Ar ôl ymddeol, rydw i wedi cael amser i wneud mwy o hobïau. Roeddwn wedi bod yn gwau ers fy arddegau ond yn ffansio cael sialensiau newydd. Dysgais grosio efo YouTube a dysgu fy hun i ddefnyddio peiriant gwnïo. Ond fy hoff ddiléit yw creu eitemau efo fy mheiriant brodio. Mae fy nghefndir a'm diddordeb mewn technoleg wedi fy helpu i raddau gan y gallaf gynllunio rhywbeth mewn rhaglen ar y cyfrifiadur ac yna ei drosglwyddo i'r peiriant brodio. Daeth rhyw ysfa i gystadlu heibio ac rwyf wedi bod yn ffodus o ennill gwobrau mewn sioeau ac eisteddfodau lleol ac yn ddiweddarach efo Merched y Wawr yn lleol ac yn genedlaethol yn y Sioe Fawr a'r Ffair Aeaf.

A beth am y dyfodol? Cael iechyd i fwynhau'r hyn rydym yn ei wneud yn barod, cael cyfle i grwydro mwy eto a chyfle i fwynhau efo'r plant a'u gweld yn tyfu i fyny.

**Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?**

Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion
Cêt Morgan, Fferm Glanfrêd

**y tincer**

cetmorgan@icloud.com
07966 510195

# Myfyrdod y Pasg

O bryd i'w gilydd fe wnaeth Sam Jones, cyn ficer Llanllwni Sir Gar, dynnu coes y Saeson a ddaeth i fyw yn ei blwyf. Roedd Eglwys Capel Dewi yn un o'r eglwysi dan ei ofal ac mi fyddai Sam yn dweud wrth y Saeson mai'r eglwys hynaf yng Nghymru yw'r adeilad yna. I brofi'i bwynt byddai'n tynnu sylw ymwelwyr at y garreg uwchben y drws sydd yn dweud 'Adeiladwyd 1835 BC'. Ac wrth gwrs i'r Saeson byddai BC yn golygu 'before Christ'! Yr eglwys hynaf yng Nghymru, felly!

Roedd Crist wedi rhwygo amser. CC Cyn Crist, a BC Blwyddyn Crist. Wnaeth y pandemig rwygo amser hefyd. Roedd yn beth mawr, yn fythgofiadwy ac yn ddigyffelyb yn ein hoes ni. Yn aml iawn rydym yn sôn nawr am bethau a ddigwyddodd cyn Cofid neu ers Cofid. Ond sylwch gyda'r Iesu, dydyn ni ddim yn dweud EC Ers Crist neu AC Ar ôl Crist. Yn hytrach BC, blwyddyn Crist yw'r ffordd rydym yn disgrifio'r blynyddoedd ers iddo gerdded y ddaear yn gorfforol. A'r rheswm am hynny? Oherwydd ei fod yn fyw o hyd. Codwyd ef o'r bedd. Dyna beth a ddigwyddodd ar ddydd y Pasg.

Does dim ar ôl Crist oherwydd ei fod o gwmpas hyd heddiw. Dyw'r Iesu ddim yn byw o hyd yn ei ddysgeidiaeth er bod dylanwad ei ddysgeidiaeth ar ein cenedl yn enfawr. Dyw e ddim yn byw yn yr atgofion ohono fe chwaith, y storïau y clywsom amdano yn ein hysgol Sul a'n haddysg crefyddol. Na, mae'r Iesu'n byw yn ei Ysbryd; yr Ysbryd sydd yn bywiocau pobl hyd heddiw. Mae'n byw yn ei berson ac yn ei bresenoldeb, a dyna beth yw profiad cymaint o Gristnogion o'n cwmpas.

Fe glywais am gyfaill ar ei liniau mewn gweddi yn eglwys gadeiriol Wells a daeth yn ymwybodol o'r Arglwydd Iesu yn sefyll wrth ei ochr ef. Fe godwyd o'i luniau yn Gristion. Dyma un arall a oedd wedi methu bod yn y cwrdd ar fore Sul ac aeth i'r ystafell wydr i gael amser tawel. Tra bod e'n eistedd ac yn hollol annisgwyl llenwyd y lle gyda phresenoldeb Crist. Dyma un arall mewn gweddi, wedi bod mewn damwain car, un o'i merched mewn perthynas afiach, a merch arall yn wynebu afiechyd cronig, yn clywed llais yn dweud wrthi hi 'Bydd dy boen yn pasio' a thrwy'r dagrau gas hi'i llenwi gan dangnefedd dwfn.

Dyw'r neges Gristnogol ddim yn edrych nôl i ryw oes arbennig yn y gorffennol sydd wedi pasio heibio ond fel arall, blwyddyn Crist yw hi nawr, blwyddyn presenoldeb y Crist byw. Rydym yn edrych i fyny i'r Crist atgyfodedig ac yn disgwyl clywed rhywbeth oddi wrtho fe a'i weld ef ar waith yn ein bywydau.

Pasg Llawen iawn i chi.

**Stuart Bell**



## Cyngor Cymuned **Tirymynach**

Cyfarfu'r Cyngor ar 26 Chwefror. Roedd 4 o gynghorwyr cymuned yn bresennol ynghyd â'r clerc a'r cadeirydd.

Trafodwyd:

- Hybysfwrdd Tirymynach sydd tu allan i Spar – anogwyd y trigolion lleol i'w ddefnyddio ac i gadw llygad ar y cynnwys.
- Hyfforddiant i'r cynghorwyr – mae hyn yn parhau.
- Diolchwyd am dynnu'r goeden Nadolig; bwriedir trefnu seremoni goleuo debyg yn Rhagfyr eleni, wedi llwyddiant seremoni Rhagfyr y llynedd.
- Trafodwyd y ceisiadau am nawdd a dderbyniwyd; daw manylion pellach yn fuan.
- Bydd y tendrau yn cael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf.
- Materion Aber Bay a'r parcio yng Nghlarach – mae'r mater yn dal yn nwylo tîm cyfreithiol y cyngor sir.
- Diffibriliwr newydd i Langorwen – mae'r cyngor yn aros i gael gwybod beth yw'r gost. Gobeithio bydd modd ei osod yn y misoedd nesaf.
- Am resymau iechyd a diogelwch bydd parc Tregerddan ar gau o ddechrau Mawrth. Mae parc Bryncastell yn ddiogel; bydd gofalu am hwn yn cael blaenoriaeth, felly. Tynnwyd y siglen oedd wedi torri. Ni ddylid defnyddio'r siglenni eraill nes eu bod yn cael seti newydd.

Mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb i ymuno â Chyngor Tirymynach; e-bostwch tirmynach@gmail.com
Y cyfarfod nesaf: Neuadd Rhydypennau, 25 Mawrth, 7.30






## Goginan

**Llwyddiant Cymdeithas Cymuned Goginan**

Bydd preswylwyr Goginan yn mwynhau gwelliannau i'r pentref y flwyddyn hon oherwydd cais llwyddiannus i Gronfa Ffyniant Cyffredin y DU. Mae Cymdeithas Cymuned Goginan wedi derbyn £8,000 i dalu am offer garddio, celfi awyr agored a phren i uwchraddio'r cae cymunedol. Edrychwch mas am alwadau am wirfoddolwyr i ymuno a gweithgareddau trwy'r flwyddyn.



Bydd rhan o'r grant yn cael ei wario ar lwyfan newydd i sicrhau bod pawb yn cael amser braf ym mhartis y pentref. Caiff y llwyfan newydd ei ddefnyddio am y tro gyntaf yn y digwyddiad 'Proms yn y Cae' ym mis Mai 2024.

Roedd 'Proms yn y Cae 2023' yn llwyddiannus iawn. Bu pawb yn mwynhau perfformiadau gan bedwarawd llinynnol, pianydd, Aber Opera, Band Seindorf Aberystwyth a'n côr poblogaidd lleol – Meibion y Mynydd! Codwyd £1,500 i Ambiwlans Awyr Cymru.

Bydd 'Proms y Cae 2024' yn cynnwys cerddorion tebyg ac yn codi arian i'r elusen Achub Mynydd (Mountain Rescue) ac i ward Meurig, Ysbyty Bronglais. Byddwn hefyd yn dathlu pen-blwydd arbennig Louise Short, Cwm Rheidol. Rhowch y dyddiad – Dydd Sul 19 Mai - yn eich dyddiadur nawr, bydd croeso cynnes iawn i bawb.

***Golwg***

Roedd y llun ar glawr y cylchgrawn *Golwg* rhifyn 21, Chwefror 8 wedi ei dynnu gan Ceirios Bebb, wyres Aled a Bethan Bebb, Penpistyll. Roedd Gŵyl Grwpiau Cymraeg wedi ei chynnal yn y Neuadd Fawr, Aberystwyth a Ceirios oedd yno yn tynnu lluniau.

**Rhestr fer**

Llongyfarchiadau i Caryl Lewis am wneud rhestr fer llyfrau Cymraeg sector cynradd Tir na n-Og 2024 gyda'i chyfrol *Mari a Mrs Cloch* gan Caryl Lewis, darluniwyd gan Valériane Leblond (Y Lolfa). Y llyfrau eraill yn y categori yw *Jac a'r Angel* gan Daf James, (Y Lolfa) *Y Gragen* gan Casia Wiliam (Cyhoeddiadau Barddas) ac *Wyneb yn Wyneb* gan Sioned Wyn Roberts 9Atebol). Bydd enillwyr y categorïau Cymraeg yn cael eu cyhoeddi am 13.00 ddydd Mercher, 29 Mai, ar Faes Eisteddfod yr Urdd ym Meifod.

**Newyddion trist**

Ar Nos Sadwrn y nawfed o Fawrth bu farw Mair Jones, Coedlan, gweddw Gareth yn ysbyty Bron-glais. Ar Fore Mawrth y deuddegfed o Fawrth fe gollodd John Howells, Arfon House ei frwydr yn erbyn salwch hir.

Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teuluoedd a ffrindiau oll.


D J Evans
Cyfarwyddwyr
Angladdau

Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad

Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ

Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
djevansfuneraldirectors@gmail.com

Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006



Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

Canolfan Morlan, Morfa Mawr
Aberystwyth Ceredigion
SY23 2HH
www.morlan.cymru




**Rhestr o rai yng nghinio Clwb Ffermwyr Ifanc Rhydypennau a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Gogerddan Arms, Aber-porth, 1966.**

**Y rhes gefn:** Islwyn Hughes, John Hughes, David Evans, Alan Jones, Llinos Lewis, Merfyn Hughes, Alun Hughes, Peter Davies, Anthea Davies, Gwynfor Lewis, Margaret Hughes.

**Y bedwaredd res:** Geraint Jones, Mair Evans, Aldwyth Hughes, Tegwyn Lewis, Joy Baker, Kenneth Evans, Mary Davies, Hywel Ebenezer, Gwyneth Sadler, Dic Davies, Gwen Morgan.

**Y drydedd res:** Wendy Watkins, Olga Morgan, Menna Hughes, Alun Jones, Alun Davies, Glyn Rowlands, Dilwyn Griffiths, Alun Morgan, Roy Rowlands.

**Yr ail res:** David Morgan, Dilys Morgan, Robert Williams, Sandra Owen, Bryn James, John Rees, Henry Davies, Dei James (*gyrrwr*).

**Y rhes flaen:** Elfed Lewis, Hywel Raw-Rees, Rhys Davies, Simon Raw-Rees, Gwilym Hughes, Maldwyn Williams.

Rhaid diolch ym mhob peth, felly: diolch i Aldwyth Lewis, Rhos-goch, a'i chyfeillion am ddatrys yr enwau ac i Dafydd Ifans, Rhandir, am eu teipio. Diolch hefyd i Peter Davies, Cwmcanol, am gael benthyg y llun gwreiddiol.

**Erwyd Howells**

# Cylch Cinio Aberystwyth

Tywysydd Pared Gŵyl Ddewi Aberystwyth 2024 David Greaney Llanbadarn Fawr oerdd gwr gwadd mis Mawrth Cylch Cinio Aberystwyth a gynhaliwyd yng Nghlwb Peldroed Penrhyn-coch ar nos Wener Ionawr 8fed

Wrth ei gyflwyno dywedodd y Cadeirydd Vaughan Griffiths fod David yn berson cwbwl haeddiannol i dderbyn cydnabyddiaeth Y Pared blynyddol yn Aberystwyth ar sail ei weithgaredd diflino dros yr Llanbadarn Fawr, Aberystwyth a thros Cymru.

Llongyfarchwyd David a threfnwyr y Pared am lwyddiant diamheuol yr achlysur eleni eto. Hwn oedd y degfed Pared i'w drefnu yn Aberystwyth.

Cafodd David ei eni yn Llundain ond cafodd ei fagu yn Comins Coch a Llanbadarn Fawr.

Roedd ei dad Donal yn Wyddel o ddinas Limerick a'i fam Enid yn un o hen deuluoedd yr Howell's o Llanbadarn.

Mae'n adnabyddus yn Llanbadarn fel cynghorydd lleol ward Sulien ac un o arweinwyr clwb yr henoed yn y pentre. Mae llawer yn adnabod David hefyd drwy ei waith gyda'r papur bro Aberystwyth 'Yr Angor'

Cafodd David ei addysg gynradd yn Ysgol Comins Coch cyn mynd ymlaen i Ysgol Ramadeg Ardwyn. Yn 1974 graddiodd David yn Ffiseg Gymhwysol. Ei swydd gynta oedd Athro o Ffiseg, Cemeg a Mathemateg yn Dagenham. Mae hefyd wedi gweithio ym



**David Greaney. Llanbadarn Fawr a thywysydd Pared Gŵyl Ddewi Aberystwyth 2024 oedd siaradwr y mis yng Nghylch Cinio Aberystwyth a gynhaliwyd yng Nghlwb Peldroed Penrhyn-coch ym mis Tachwedd. Yn y llun hefyd mae Vaughan Griffiths Cadeirydd y Cylch Cinio a'r Athro Geraint Vaughan.**

Mryste a Reading.

Dychwelodd David i Aberystwyth yn 90 degau. Derbyniodd swydd weinyddol yn Llyfrgell Genedlaethol lle arhosodd tan ei ymddeoliad.

Mae'n addoli yn Eglwys Gatholig Penparcau ac yn weithgar iawn o fewn yr eglwys. Mae hefyd yn Is-Gadeirydd y Cylch Catholig, corff swyddogol y Pabyddion Cymraeg ei hiaith. Mae'n swyddog o cylch gweithiol Sant Padarn - grwp sydd yn gweithio i wneud pobl lleol a thu hwnt yn fwy ymwybodol o hanes y Sant

Mae hefyd yn weithgar yn Nghymdeithas Saint Vincent de Paul sy'n rhoi cymorth i'r tlawd yn yr ardal ... yn ogystal a India ar Sudan ac yn gadeirydd llywodraethwyr Ysgol Gatholig
Padarn Sant.

Y llynedd cafodd ei ethol yn Ysgrifennydd y Gyngres Geltaidd mudiad sy'n hyrwyddo gwybodaeth o ieithoedd a diwylliant y gwledydd Celtaidd. Mae'n aelod o Orsedd y Beirdd Cernyweg, ei enw barddol Cernywaidd yw 'Steren Godah' neu Seren Wib.

Son a wnaeth yn bennaf am weithgareddau y Gyngres Geltaidd a'r manteision sy'n dod i fudiadau a chwmnïau sy'n ymhél ymhlith y gwledydd Celtaidd a'r angen i wneud pobol yn fwy ymwybodol o genedligrwydd, diwylliant a ieithoedd unigryw y gwledydd hyn.

Diolchwyd iddo gan Yr Athro Geraint Vaughan a fu'n gymydog iddo yn Llanbadarn am nifer helaeth o flynyddoedd a soniodd yn benodol am waith diflino David a'i ysbryd brwdfrydig yng ngweithgareddau'r pentref.

Enillwyd y raffl gan Illtyd Griffiths, Glandyfi.

Diolchodd y Cadeirydd i nifer o aelodau'r Cylch Cinio am gynorthwyo gyda threfniadau Pared Gŵyl Ddewi Aberystwyth a gynhaliwyd yn y dref ar Fawrth 2.

Cynheli cyfarfod nesaf y Cylch Cinio ar Ebrill 12fed ac mae yna ddrws agored i aelodau newydd sy'n mwynhau cymdeithasu yn Gymraeg.

**TEITHIAU ELFYN THOMAS**
**EISTEDDFOD FFERMWYR IFANC (CFfI) 2024**
YSGOL GYFUN BRO MYRDDIN, CAERFYRDDIN
1-3 TACHWEDD 2024

**3 Diwrnod o £249.00 – Atodiad sengl £50**
**Teithio Mewn Bws Moethus**
**Cludiant o'r Gwesty i'r Eisteddfod ac yn ôl.**
**Yn cynnwys – yng Ngwesty Mercure Abertawe**
**2 Noson Gwely & Brecwast**
**1 Cinio nos Wener**
**1 Cinio canol dydd dydd Sadwrn**
**Mynediad i'r Eisteddfod o 3.00 ymlaen**

Archebwch ar lein www.elfynthomas.com
01407 731080
Pigo i fyny yn Nhal-y-bont / Bow Street/ Aberystwyth

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
LLWYNDAFYDD, CAPEL BANGOR ABERYSTWYTH

*Crefftau Pennau*
*Coffi Boreuol*
*Byrbrydau Poeth neu Oer*
*Cinio*
*Te Prynhawn*
*Crefftau Ac Anrhegion*
*Ar agor*
*Llun-Sadwrn*
*10.00-5.00*
Brecwast ar gael
01970 820 050
Pennau

Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?
Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion
Cêt Morgan, Fferm Glanfrêd

BRIDGE HOUSE CLEARANCE
Gardd neu Sied – Gwaredu Ysbwriel
Cartrefi a Busnesau
Trwydded i Gludo Gwastraff
Gwerthu eich ty? Gallwn ei glirio
Yswiriant llawn, Pris am ddim
f 07792457816 / 01974 261758

# Trefeurig

**Gwobrau *y Selar***

Llongyfarchiadau i Ellis Walker, aelod o'r grwp Mellt. Cyhoeddwyd ar 15 Chwefror mai Record Hir Orau Gwobrau'r Selar ydy Dim Dwywaith gan Mellt. Dymuniadawwwu gprau i Mellt fydd yn brysur fel canlyniad

**Her Seiclo**

Bydd Rhydian Mason, Machynlleth (Cwmerfyn gynt) yn wynebu her seiclo ym Mehefin er cof am ei dad-cu Elwyn Mason i gofio D-Day. Yn ôl Rhydian:

Ym mis Mehefin eleni, mi fyddai'n teithio i Sainte Mere Eglise yn Normandie, ac yn beicio o'r fan yna heibio traethau glanio D-Day, ac ymlaen i Baris, taith o oddeutu 400km dros 4 diwrnod i godi arian tuag at *Help For Heroes* - elusen sy'n cefnogi y rhai hynny a fu'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog ac sydd wedi profi niwed corfforol a/neu seicolegol megis PTSD. Mi fyddai'n gwneud hyn er cof am fy Nhad-cu Elwyn Mason, a oedd yn un o'r milwyr a laniodd ar draeth Juno ar fore'r 6ed o Fehefin 1944. Mae'n 80 mlynedd eleni ers D-Day, ac yn un o'r troeon diwetha bellach lle bydd rhai o'r rhai hynny a gymerodd ran yn y glaniadau yn medru bod yn bresennol.

Dyn addfwyn - gŵr bonheddig oedd Dad-cu, ac rwy'n siwr bod nifer fawr o ddarllenwyr y *Tincer* yn ei gofio, bob amser a gwên ar ei wyneb, a cap am ei ben. Roedd e'n arwr i mi. Yn 1939, a fynte'n 21 oed, daeth yr alwad i wneud y Gwasanaeth Cenedlaethol a chyn i'r cyfnod ddod i ben, mi gychwynodd y rhyfel, ac i ffwrdd a fe o'r bechgyn milisia i Ffrainc ac ymlaen i wlad Belg fel un o'r B.E.F - y British Expeditionary Force, i wynebu'r gelyn. Roedd yn antur o fath - doedd neb yn disgwyl i'r rhyfel bara yn hir o gwbl, ond buan iawn drodd yr antur yn hunllef. Roedd y gelyn wedi gwrth-ymosod arnynt yn galed, ac yn sydyn ac erbyn Mai 1940 roedd Dad-cu yn un o'r rhai hynny a oedd wedi ffoi gyda'r fyddin i dref o'r enw Dunkirk.

Rwy'n cofio amdano yn sôn am y Stuka's - awyrennau a oedd yn bomio'r traethau a'r twyni lle oedd Dad-cu yn aros am achubiaeth i'w godi fe a'r bois oddi ar y traethau. Bob awr o'r dydd mi fyddai'r awyrenau yn dod ac yn gollwng eu bomiau ac yn saethu'n ddi-drugaredd. Roedd yn brofiad erchyll yn amlwg, ac anaml y buasai'n sôn amdano. Mi wnaeth e gyrraedd yn ôl ar gwch o Dunkirk i Margate, ac mewn llythyr y sgwennodd 'nôl adre y diwrnod wedyn mae'n son fel yr oedd wedi ei ddal gan y gelyn heb fwyd a heb gwsg am ddyddiau. Roedd wedi colli popeth o'i eiddo, nid oedd yn gwybod lle oedd ond yn ddiolchgar o gael bod yn fyw.

Newidiodd bywyd Dad-cu yn Ebrill a Mai 1940. Ni fu byth yr un fath yn ôl rhai dwi wedi siarad â nhw oedd yn ei adnabod cyn y rhyfel pedair mlynedd yn ddiweddarach, roedd e nôl ar draeth arall yn Ffrainc, traeth Juno, ar y 6ed o Fehefin. D-Day. Mi welodd frwydro ffyrnig, bu'n osgoi bwledi a bomiau'r gelyn unwaith yn rhagor. Bu'n cysgu mewn caeau o dan ei gerbyd amffibian, ac mi welodd ddinas Caen yn wenfflam. Rwy'n cofio fe'n sôn am weld cyrff ym mhobman - cyrff milwyr, a chyrff pobl ddiniwed o bob oed, cyrff gwartheg a cheffylau. Unwaith yn rhagor, roedd e wedi gweld uffern ar y ddaear.

Ond, ennill y dydd, ac ennill y rhyfel wnaeth y cynghreiriau, ac ym 1946, yn Munster yn yr Almaen, arwyddodd y Major bapurau rhyddhau Dad-cu, a'r gair 'Exemplary' wedi'i danlinellu ar y papur. Wedi'r rhyfel, hunllefau, ac ôl-fflachiadau ddaeth yn aml i Dad-cu, ac er iddo guddio'r peth yn dda oddi wrth y rhan fwyaf, mi oedd e'n diodde o beth a elwir heddiw yn PTSD (Post Traumatic Stress Disorder). 'Radeg hynny wrth gwrs, doedd y peth ddim yn cael ei gydnabod, ac, fel miloedd eraill, mi roedd Dad-cu yn delio gyda'r peth yn ei ffordd ei hun. Doeddwn i ddim yn ymwybodol o hyn tan ar ôl iddo gael ei gladdu ym mynwent Siloa (capel ucha') Cwmerfyn yn 2006. Roedd yn ŵr bonheddig bob amser, ddim am i neb boeni amdano. Roedd yn un o genhedlaeth arbennig iawn, ac yn un o fil a mwy i mi fel ŵyr balch.

Pan fyddai ar fy meic ym Mehefin eleni, mi fyddai'n codi arian tuag at ymdrechion *Help for Heroes* i helpu'r rheini sydd heddiw yn dioddef o bethau fel PTSD. Mae'n rhy hwyr i mi helpu Dad-cu, ond bosib iawn mi fyddai'n helpu rhywun a fydd, fel Elwyn, yn dad-cu i rywun arall cyn hir. Dyna'r cwlwm cyswllt, a'r rheswm i mi fynd ar fy meic am 400km. Mi fyddai'n beicio gyda criw o bobl - rhai yn gyn-filwyr sydd wedi colli breichiau, coesau, neu'n dioddef o iselder a PTSD, a phobl eraill fel fi a fydd yn beicio trwy Ffrainc er cof ac anrhydedd i rai sy' bellach wedi'n gadael. Rwy'n edrych ymlaen i gyfarfod â nhw, ac i feicio yn ôl troed ac ôl olwynion Dad-cu yn Normandie.

Mi fuaswn yn ddiolchgar iawn am unrhyw gefnogaeth y gall darllenwyr a chefnogwyr hael y *Tincer* gyfrannu tuag at yr achos. Mae gennYF darged o £1500 i'w godi, tuag at yr elusen yma. Edrychaf ymlaen i ddanfon lluniau i'r *Tincer* ym Medi i chi gael yr hanes - gan obeithio y byddaf yn medru cyrraedd tŵr Eiffel heb ormod o boen yn y coesau. Gallwch gyfrannu trwy gysylltu â mi neu drwy edrych am fy enw ar safle we 'justgiving'

https://www.justgiving.com/page/rhydian-mason-99693








# Beth yw Stad y Goron?

Mae cryn dipyn o sôn wedi bod yn ddiweddar am Stad y Goron (Crown Estate), a galw am i elw'r stad yng Nghymru ddod i Lywodraeth Cymru yn hytrach na mynd i'r Trysorlys yn Llundain Ond beth yw Stad y Goron? Casgliad o diroedd sydd yn perthyn i'r Goron mewn ffordd arbennig yw'r Stad hon. Dyma 'diroedd cyhoeddus' y Goron; dydyn nhw ddim yn perthyn i stad breifat y Goron, ac yn swyddogol dydyn nhw ddim yn perthyn i'r wlad ychwaith. Mae'r stad hon yn cael ei rhedeg gan Gomisiynwyr annibynnol, ond mae'r holl elw o'r stad yn mynd i lywodraeth y Deyrnas Unedig, ac yna mae cyfran ohono yn cael ei roi i'r teulu brenhinol.

Mae'n stad helaeth iawn, gydag eiddo gwerth dros £15 biliwn, sef 15,000 o filiynau o bunnau, gyda tua £9 biliwn o hynny yn eiddo mewn trefi a dinasoedd. Ond mae hefyd yn cynnwys tua 3,000 milltir sgwâr (bron i 2 filiwn o aceri) o diroedd a choedydd, a hefyd tua hanner glannau moroedd Prydain. Yr hyn a olygir gan lan môr yma yw blaen y traeth, sef y rhan rhwng y trai a'r topllanw, neu 'foreshore' yn Saesneg.

Tan 2016 roedd y stad hon yn Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon i gyd yn un stad. Ond, yn y flwyddyn honno, yn dilyn pwysau gan Lywodraeth yr Alban, fe ddatganolwyd yr hawl dros y stad yn yr Alban i lywodraeth y wlad honno. Felly mae incwm y stad yn yr Alban yn awr yn mynd i Lywodraeth yr Alban. Dyna sy'n egluro y galw am i'r hawl dros y stad yng Nghymru gael ei datganoli, gan y byddai'n ennill sylweddol i Gymru.

Beth yw Stad y Goron yng Nghymru? Wel, mae'n cynnwys gwely'r môr hyd at 12 milltir o'r lan, tua dwy ran o dair o'r blaen traethau, porthladdoedd a marinas a tua 50,000 o erwau o dir mynydd. Mae gwerth y stad yng Nghymru wedi codi o tua £50 miliwn yn 2020 i dros £600 miliwn yn 2022. Yn 2021 roedd yr elw yn £9 miliwn. Mae tri chwarter yr elw yn mynd i'r Trysorlys a chwarter yn mynd i'r Goron. Un peth sydd wedi cynyddu gwerth y stad yng Nghymru'n sylweddol yn ddiweddar yw'r melinau cynhychu trydan sydd wedi'u codi yn y môr oddi ar lannau'r gogledd, a'r cynlluniau i gael rhagor ohonynt. Yng Ngheredigion mae'r rhan fwyaf o'r glannau moroedd yn rhan o'r stad yn ogystal â thiroedd ger Ponterwyd a Chwmystwyth.

Yng Nghymru, mae Plaid Cymru, y Blaid Lafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi gofyn am ddatganoli'r stad i Gymru. Ydi o'n debyg o ddigwydd? Wel, os daw Keir Starmer yn Brif Weinidog fyddwn i ddim yn dal fy ngwynt. Dydw i ddim yn meddwl fod Starmer a Llafur Lloegr yn meddwl dim am Gymru. Fe ddigwyddodd y newid yn yr Alban am fod yno lywodraeth SNP oedd yn ddigon cryf i roi pwysau ar y Llywodraeth yn Llundain. Mae teyrngarwch pennaf Llafur Cymru i'r Blaid Lafur Brydeinig ac nid i Gymru, felly fyddwn i ddim yn rhoi llawer o ffydd ynddyn nhw i bwyso'n gryf am newid. Os yw pobl Cymru am weld newid yn y maes hwn, fel mewn llawer maes arall, mae'n bryd iddyn nhw beidio â rhoi eu ffydd mewn pleidiau Seisnig.

THE CROWN ESTATE

# Aber-ffrwd a Chwmrheidol

Beti Daniel yn trosglwyddo siec i Catherine Griffiths, rheolwraig banc bwyd Aberystwyth.





Ben Lake AS a Cefin Campbell, Aelod Rhanbarthol o'r Senedd (Plaid Cymru) fu ar ymweliad diweddar â Statkraft, Cwmrheidol.

**inc**

Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.

**CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION**

13 Stryd y Bont, Aberystwyth

**01970 626 200**

# Y Borth

**Cydymdeimlad**
Blin oeddem i ddeall am farwolaeth Mrs. Rosa Davies, Tŷ Gwyn, Glanwern yng nghartref Plas y Cwm ddechrau mis Chwefror. Cydymdeimlwn â'r teulu yn eu profedigaeth.

**Diolch**
Hoffai teulu'r ddiweddar Betty Eirwen Hughes, gynt o Elidir, y Borth, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad dderbyniwyd adeg colli Betty ganol Ionawr. Bu hi farw yn ysbyty'r Amwythig wedi cyfnod o salwch.

Bydd nifer o drigolion hŷn y Borth yn cofio Betty. Wedi iddi hi a Robert briodi yn y pentre yn 1977 symudodd y ddau i'r Alban lle buon nhw'n rhedeg tafarn am rai blynyddoedd. Yn yr 1980au, De Affrica oedd yn mynd â'u bryd a dyna lle y ganwyd eu merch Lynne. Treuliodd y teulu lawer o flynyddoedd hapus yn byw a teithio i wahanol lefydd yn y wlad honno gan ddychwelyd i Brydain, a setlo yn yr Amwythig ganol y 1990au. Er y teithio, doedd y Borth byth yn bell o galon Betty a byddai'n dychwelyd i'r pentref yn aml i ymweld â'r teulu.

**Canolfan Ymwelwyr Ynys-las**
Mae'r naturiaethwr a'r cyflwynydd teledu Iolo Williams wedi apelio ar Gyfoeth Naturiol Cymru i gadw Canolfan Ymwelwyr Dyfi Ynys-las yn agored. Mae dyfodol y Ganolfan yn y fantol ers i Gyfoeth Naturiol Cymru ddweud ym mis Rhagfyr eu bod, am resymau ariannol, yn adolygu eu holl gylch gwaith gan gynnwys canolfannau ymwelwyr Dyfi Ynys-las, Bwlch Nant yr Arian a Choed y Brenin.

Nid oes penderfyniad terfynol wedi'i wneud eto ond wrth ymweld ag Ynys-las ar 11 Mawrth, galwodd Iolo Williams ar Gyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru i gadw'r Ganolfan yn agored. Mewn fideo byr ar ei gyfrif X, dywedodd: "Mae hon yn adnodd mor werthfawr, sy'n cael ei defnyddio gan bobl leol, gan ymwelwyr, gan fyfyrwyr… felly plîs wnewch chi ailfeddwl. Mae mor bwysig cadw'r llefydd yma ar agor fel adnodd addysg gwerthfawr. Diolch yn fawr."

Mae ymgyrch wedi cychwyn yn lleol i ddiogelu dyfodol y Ganolfan ac ar 1 Mawrth, daeth oddeutu 130 o bobl leol ynghyd yn Neuadd Gymunedol y Borth ar gyfer cyfarfod cyhoeddus. Trefnwyd y cyfarfod gan Gyngor Cymuned y Borth gyda'r Cynghorydd Hugh Hughes yn cadeirio. Roedd Aelod Senedd Ceredigion Elin Jones yno i gefnogi hefyd a daeth aelod o weithgor Cyfoeth Naturiol Cymru i ateb cwestiynau.

Mae'r ymgyrchwyr hefyd wedi trefnu deiseb ar-lein yn galw ar Gyfoeth Naturiol Cymru i gadw'r Ganolfan ar agor a hyd yma, maen nhw wedi casglu dros 1,800 o lofnodion.



**Bad Achub y Borth**
Teithiodd dau aelod o Orsaf Bad Achub y Borth i Lundain y mis hwn ar gyfer gwasanaeth arbennig yn Abaty Westminster i ddathlu 200 mlwyddiant yr RNLI. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Andy Hardy sydd newydd gymhwyso fel aelod llawn o griw bad achub Dosbarth-D Y Borth. Mae Andy yn gweithio ym Mhrifysgol Aberystwyth, mae'n syrffiwr brwd ac mae ef a'i deulu yn byw yn y Borth ers dwy flynedd.

**Celf y Borth yn Ysbyty Bron-glais**
Cafodd arddangosfa o waith celf gan aelodau hŷn yr Hwb ei hagor yn Ysbyty Bron-glais yn Aberystwyth y mis yma. Bydd eu gwaith i'w gweld ar hyd rhai o goridorau'r ysbyty tan fis Mehefin. Yr artist lleol Martine Ormerod sy'n arwain y prosiect celf yn yr Hwb.



**Pen blwyddi Arbennig**
Pen blwydd hapus iawn i'r artist Stuart Evans o'r Borth fu'n dathlu ei ben blwydd yn 70 oed ym mis Chwefror. Pen blwydd hapus hwyr hefyd i Mathew Jones o Ynys-las ar ei ben blwydd yn 40 ar 6 Chwefror.

**Celf Gobaith**
Wedi hoe dros fisoedd y gaeaf, bydd siop ac oriel 2 London Place yn ailagor ar ddydd Mercher 20 Mawrth gydag agoriad swyddogol rhwng 4 a 6yp o arddangosfa newydd o waith Jacq Brill. Dan y teitl 'Gobaith', mae'r casgliad lliwgar a llawen yma o waith amlgyfrwng yn cynrychioli ymateb yr ateb i ddyddiau tywyll. Daw ysbrydoliaeth Jacq o'r hyn sydd o'i chwmpas ac mae wrth ei bodd yn defnyddio defnydd wedi'i ailgylchu i greu darluniau. Mae hefyd wedi bod yn arbrofi gyda thechneg brodwaith Siapanaidd draddodiadol o'r enw *sashiko* i greu darnau unigryw o emwaith. Croeso i bawb.





**Celf Tad a Mab**
Bydd printiau gan ddau o artistiaid y Borth yn rhan o arddangosfa gan Wneuthurwyr Print Aberystwyth yng Nghanolfan Celfyddydau'r Canolbarth yng Nghaersws. Bydd gwaith newydd gan Stuart Evans a'i fab Jonah (sydd bellach yn astudio celf gain ym Mhrifysgol Bryste) i'w weld yn yr arddangosfa rhwng 24 Mawrth a 19 Mai.

Mae un o brintiau Jonah yn adrodd chwedl Taliesin tra fod un arall ganddo wedi'i ysbrydoli gan gyfres o dorluniau leino a wnaed gan Stuart sawl blwyddyn yn ôl wrth iddo olrhain hanes rhai o longau Ceredigion.

Mae'r arddangosfa yn rhan o gyfres o ddigwyddiadau i ddathlu pen blwydd grŵp Gwneuthurwyr Print Aberystwyth yn 20 oed ac mae mynediad am ddim.

# Newyddion Clwb Golff Y Borth ac Ynys-las

**Dydd Gŵyl Dewi** (llun)
Dathlwyd ein nawddsant gyda chinio Gŵyl Dewi yn y clwb yng nghwmni Gareth Charles, cyn sylwebydd a gohebydd rygbi gyda'r BBC. Cafwyd sgwrs hynod ddiddorol yn olrhain rhai o straeon a phrofiadau sylwebu Gareth dros y blynyddoedd nid yn unig yng Nghymru ond ar draws y byd. Bu Gareth yn sylwebydd ymhob Cwpan Byd o'r cychwyn cynnar ac ar 7 taith Llewod. Un o uchafbwyntiau ei yrfa oedd bod yn bresennol yn rownd derfynol Cwpan Rygbi'r Byd yn Ne Affrica a chael y fraint o wylio Nelson Mandela yn cyflwyno Cwpan Webb Ellis i Francois Pienaar. Diolch yn fawr i Charlo am ei amser yn diddannu ni gyd.



**Gareth Charles (canol) gyda Chapteiniaid y clwb, Catrin Pugh Jones ac Alan Shaw.**



**Rhai o enillwyr y gystadleuaeth Ffolant – Helen Lewis, Barbara Flanagan, Clare Jones a Ruth Morris - gyda'r capteiniaid Alan Shaw a Catrin Pugh Jones.**

**Dathlu San Ffolant**
Dathlwyd Dydd San Ffolant gyda chystadleuaeth elusen o barau cymysg. Gyda'r cwrs yn dioddef yn sgîl glaw di-baid y gaeaf yma, roedden ni'n ffodus fod 9 twll o'r cwrs ar agor ar y diwrnod. Daeth 10 pâr at ei gilydd ar gyfer y gystadleuaeth gan gynnwys 6 o'n haelodau newydd i golff. Diolch i bawb am eu cyfraniadau tuag at elusennau'r Capteiniaid.
1af Barbara Flanagan a Steve Evans - 22 pwynt
2ail Helen Lewis a Clare Jones - 21 pwynt
3ydd Ruth Morris ac Owen Jenkins - 17 pwynt

**Adran y Menywod**
*Santes Dwynwen*
Dathlwyd Dydd Santes Dwynwen gyda swper arbennig a chanu hwyliog yn y clwb ar nos Wener 26 Ionawr. Drannoeth, ar fore Sadwrn 27 Ionawr, cafwyd cystadleuaeth parau Santes Dwynwen gyda'r chwarae yn dilyn rheolau Greensome. Roedd wyth pâr yn y gystadleuaeth at ei gilydd, yn cynnwys rhai o'n haelodau sydd yn newydd ddyfodiaid i'r gêm.
Enillwyr
1af Karen Evans a Karen Stones
2ail Jane Raw Rees a Ruth Jones
3ydd Mair Jenkins a Barbara Flanagan

**Cystadleuaeth y Daily Mail**
Llongyfarchiadau i Anne Morris a Barbara Flanagan ar ennill cystadleuaeth parau'r *Daily Mail*. Pob lwc i'r ddwy wrth iddyn nhw gynrychioli'r clwb yn rownd nesa'r gystadleuaeth.

**Adran Hŷn y Dynion**
Dathlwyd diwedd tymor prysur ar gyfer Adran Hŷn y dynion gyda chinio Nadolig ac adloniant gan Steve Salt a Howard Davies. Cyflwynwyd gwobrau i'r enillwyr canlynol:
Tlws Adran Hŷn - Rob Clarke
Cwpan Feterans - Roy Jones
Cwpan Haf - Alan Shaw
Cwpan Gaeaf - Martin Harries
Salfer Phillip Morgan - Athole Marshall

**Babanod Newydd**
Llongyfarchiadau mawr i Harri ac Emily Prytherch ar enedigaeth eu plentyn cyntaf ar ddydd Mawrth 5 Mawrth. Ganed Idris Arthur Prytherch yn Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd, lle mae cartref y teulu. Mae'n ŵyr cyntaf i Esther Prytherch a Rhodri Edwards, a bydd yn sicr yn ymwelydd cyson â'r Borth yn y dyfodol.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i Haf ap Robert a Joseph Mitchell o'r Borth sydd wedi croesawu wyres fach newydd i'r teulu. Ganed Ludovica ar 17 Rhagfyr, yn blentyn cyntaf i Twm Joseff a Vanessa D'Angeli sy'n byw yng Nghaergrawnt.

**Brechiadau Covid-19**
Mae Meddygfa'r Borth yn cynnal sesiwn brechiadau Covid-19 yn y Neuadd Gymunedol ar ddydd Mawrth 9 Ebrill ar gyfer pobl sy'n 75 oed neu'n hŷn. Os am gael apwyntiad, ffoniwch y feddyfa ar 01970 871475. Dyma'r unig ddiwrnod y bydd y brechiadau ar gael.

**Cymdeimladau**
Gyda thristwch mawr y clywsom am farwolaeth Gareth Jenkins ar 14 Chwefror, yn 62 oed. Ganed Gareth yn y Borth ar 11 Hydref 1961, yn fab i'r diweddar Glyn ac Ella Jenkins a brawd bach i Alun a Gwynn. Wedi mynychu Ysgol Gyfun Pen-glais, fe hyfforddodd Gareth ('Gaz' i'w ffrindiau) fel trydanwr, gan weithio gyda'i frawd Alun cyn cael swydd ym Mhrifysgol Aberystwyth yn yr Adran Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd. Roedd yn aelod poblogaidd a dawnus o dîm pêl-droed y Borth yn ystod y 1980au a'r 1990au, gan fynd yn ei flaen i fod yn rheolwr ac aelod pybyr o'r pwyllgor.

Roedd Gareth yn dad i dair o ferched o'i briodas gyntaf – Hayley, Cassie a Fern – ac roedd ganddo 11 o wyrion – Dafydd, Owain, Osian, Jac, Lefi, Hefin, Etta, Daniel, Ted, Tomos a Haf. Fe briododd Tracy yn 2013 ac roedd y ddau yn byw yn Nhrefechan, Aberystwyth. Cynhaliwyd ei wasanaeth angladd yn yr Amlosgfa yng Nghlarach, gyda chyfraniadau er cof am Gareth yn mynd at Gronfa Offer Nyrsus Ardal Meddygfa Ystwyth. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w deulu a'i ffrindiau.

Cydymdeimlwn yn ddwys hefyd â theulu a chyfeillion Linda Crawford o'r Borth a fu farw ym mis Chwefror. Roedd yn aelod o Glwb Golff y Borth ac Ynys-las ac yn un o wirfoddolwyr gweithgar Hwb Cymunedol y Borth. Cynhaliwyd ei gwasanaeth angladd yn Amlosgfa Aberystwyth ar 1 Mawrth a daeth y galarwyr yn ôl i'r Hwb.

**Clwb Pêl-droed y Borth**
Mae glaw mawr y gaeaf wedi cael effaith ddifrifol ar gae pêl-droed Brain y Borth, gyda nifer o gêmau'n cael eu gohirio dros y misoedd diwethaf. Â bwrw bod y tywydd yn gwella, bydd y tîm yn ôl ar eu tomen eu hunain ar ddydd Sadwrn 23 Mawrth pan fyddan nhw'n wynebu Tal-y-bont yn rownd gynderfynol Cwpan Coffa Len a Julia Newman. Cyn hynny, bydd gêm oddi cartref ar ddydd Sadwrn 16 Mawrth yn erbyn tîm y Bont.



## Hwb Cymunedol y Borth

**Bwyta'n Dda ar Gyllideb**



Mae'r hwb wedi cael grant gan Bartneriaeth Bwyd Ceredigion i gynnal cwrs 6 wythnos o hyd ar sut i goginio prydau iach ar gyllideb dynn, gan weithio gyda'r dietegydd cymunedol Fran Bayley.



WEST WALES
ANTIQUES
CAPEL BANGOR

Ydych chi angen gwerthu hen bethau, neu efallai angen gwacâu tŷ?
• Dodrefn • Arwyddion Enamel • Tacsidermi • Peintiadau • Cerflunwaith a Dodrefn Ardd • Hysbysebion • Carthenni • unrhywbeth hen neu anarferol!

Prynwr a Gwerthwr Hen Bethau

www.west-walesantiques.co.uk 07866 005996 dryburghantiques@gmail.com




Trydan
WILL DAVEY
Electrical & AV

- Gosodiad Trydanol Ardystiedig
- CCTV a AV
- Arolygu & Phrofi
- Pŵeru cerbydau trydan
- Gosod PV solar

GWYNFA, PISGAH, ABERYSTWYTH, SY23 4NE

07581 173 684 info@willdavey.co.uk @trydanwilldavey


YTincer@googlemail.com

## Colofn Elin Jones AS



Dydd Gŵyl Dewi hapus i chi oll. Dwi'n gobeithio gallu ymuno ag ambell i bared Gŵyl Dewi yn y sir, sydd wedi dod yn ddigwyddiadau pwysig yn lleol fel ffordd o ddathlu ein gŵyl genedlaethol.

Mae'r flwyddyn wedi dechrau gyda chyfnod digon heriol i nifer o lefydd gwaith a thrigolion Ceredigion. Fyddwch o bosib wedi clywed am y cyfarfodydd bu i gymaint o ffermwyr fynychu ac yn enwedig y cyfarfod yng Nghaerfyrddin, ble bu i dros 3,000 o ffermwyr gwrdd i leisio eu gofidion. Rwyf innau a Ben Lake AS wedi bod yn trafod y mater gyda'r undebau, ac rydym yn ymwybodol o'r consyrn sydd gan ffermwyr â'r cynllun ffermio cynaliadwy, ac yn deall y pwysau sydd arnynt ar hyn o bryd. Rydym yn awyddus i weithio gyda'r undebau i geisio ffeindio'r datrysiadau synhwyrol.

Rydw i hefyd yn gweithio gyda'r Cyngor Llyfrau, y Llyfrgell Genedlaethol a Chomisiwn Henebion Cymru i geisio lleihau'r toriad i'w cyllidebau gan Lywodraeth Cymru, fydd yn debygol o arwain at golli swyddi sylweddol. Roedd y newyddion diweddar gan Sensient yn sioc hefyd, gyda'u cyhoeddiad eu bod yn bwriadu tynnu allan o Ddyffryn Aeron fydd yn golygu colled o 100 o swyddi yn Felin-fach. Mae'n ergyd fawr i Geredigion, gan gwmni sydd wedi cyflogi yn yr ardal dros gyfnod hir. Daw hyn oll ar gyfnod pan mae pwysau sylweddol ar wasanaethau cyhoeddus, gyda Chyngor Sir Ceredigion yn wynebu her sylweddol i gynnal gwasanaethau hefyd.

Bues i a Ben Lake AS mewn cyfarfod gyda threfnwyr Sioe'r Cardis yn ddiweddar i drafod yr ymgynghoriad ar ddyddiadau gwyliau ysgol a sut fyddai'r Sioe Frenhinol yn cwympo tu fewn i'r tymor ysgol o dan gynigion newydd y Llywodraeth. Rydw i'n llwyr gefnogi trefnwyr y Sioe yn eu hymgais i sicrhau fod y digwyddiad ddim yn cwympo o fewn gwyliau ysgol.

Roeddwn yn falch o gael bod yn rhan o ddigwyddiad mudiad y Ffermwyr Ifanc yn y Senedd wrth iddynt hyrwyddo adroddiad newydd ar bwysigrwydd y mudiad i gefn gwlad. Roedd yn dda gweld aelodau blaenllaw o Geredigion gyda'r Prif Weithredwr Mared Rand Jones yng Nghaerdydd. Roedd hefyd yn bleser cael croesawu plant Ysgolion Penrhyn-coch a Phen-llwyn, a Chyngor Ieuenctid Ceredigion i'r Senedd yn ddiweddar.

Cadwch yn ddiogel.


Gwasanaeth argraffu diguro

Holwch Paul am bris!
paul@ylolfa.com
01970 832 304





y lolfa
Talybont
Ceredigion
SY24 5HE
www.ylolfa.com

# Llandre



**Merched y Wawr Genau'r-glyn**

Ar 19 Chwefror yng ngwesty y Four Seasons yn Aberystwyth unodd Canghennau Aberystwyth a Genau'r-glyn i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi gyda chawl ac arlwy blasus iawn.Cyflwynodd Delyth Evans y siaradwraig wadd, Nest Jenkins, Lledrod sydd i'w gweld fel newyddiadurwraig ar y cyfryngau. Cafwyd cipolwg difyr ar ei bywyd a'i gwaith drwy i Delyth (ei chyn athrawes telyn) a'r gynulleisdfa ei holi. Bu'n noson gartrefol a chysurus.

**Cara yn 5 oed!**

Mae'r cylchgrawn *Cara* yn 5 oed eleni, ac i ddathlu maent yn trefnu Ffair Fai Cara ar safle band Aberystwyth dydd Sadwrn Mai 4ydd rhwng 11 -4.00. Cyfle i brynu ambell beth neis ac i roi trît i chi'ch hunan!

## EISTEDDFODOL




Dwy o Landre yn fuddugol ar yr unawd sioe gerdd yn Eisteddfod Ranbarthol yr Urdd, Ceredigion. Megan Griffiths (3ydd) a Mirain (1af)



Gruffydd Siôn yn ennill Tlws y Cerddor, Ysgol Penweddig



Mirain yn derbyn Tlws Joyce Howells am y perfformiad gorau yn Eisteddfod Penweddig. Llongyfarchiadau ar ennill y gadair. (gweler clawr)

**Pen blwydd 90**

Llongyfarchiadau a pen blwydd hapus i Cecil Jones (Cis), Bron y Garth, ar gyrraedd 90 oed mis yma.

James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU

*Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

james.memorials@btconnect.com

SIOP Y PETHE

Llyfrau, Cardiau Cyfarch a Cherddoriaeth a llond llawr o Grefftau ac Anrhegion

01970 617120

Nawr yn cynnig gwasanaeth Cliciwch a Casglwch ar ein gwefan

www.siopypethe.cymru



RHYD-Y-PENNAU

COGINIO CARTREF
CHWARAEON BYW . COFFI

01970 867 888

# Capel Bangor / Pen-llwyn

**Suliau Pen-llwyn**

*Mawrth*

24 10.00 – Dr. Watcyn James
29 10.00 – Y Groglith Capel Seion
31 10.00 – Oedfa'r ofalaeth Y Garn

*Ebrill*

7 10.00 – Dr. Watcyn James
14 5.00 – Dr. Watcyn James
21 10.00 – Dr Rhidian Griffiths
28 10.00 a 5.30 – Cymanfa Ganu Bethel, Tal-y-bont




**Gwasanaeth coffa**

Cynhaliwyd gwasanaeth o ddiolchgarwch am fywyd yr Arglwydd Morris o Aberafon yn Eglwys St Margaret, Dean's Yard, Llundain dydd Mercher 28 Chwefror.

**Gwellhad Buan**

Dymunwn wellhad buan i Miss Ann Vaughan, Gwarddol a fu yn Ysbytai Bron-glais a Threforys yn ddiweddar, da ei gweld yn ol yn ein plith eto yn teimlo lawer yn well erbyn hyn. Pob dymuniad da.

Deallwn fod Mr. Sid Clench, Poplars yn ol yn Ysbyty Bron-glais unwaith yn rhagor. Dymunwn yn dda iddo wrth iddo ddathlu ei ben-blwydd ar y 11eg o Fawrth yn 90 mlwydd oed. Hyderaf iddo gael ei sbwylio ar y ward wrth ddathlu y garreg filltir bwysig yma. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i chithau hefyd.

**Pen blwydd**

Mae dathliadau yn Blaengeuffordd eto wrth i Ffion Williams, Brynrheidol ddathlu ei phen blwydd yn 21ain oed. Ble mae'r blynyddoedd wedi mynd dwedwch. Dymunwn yn dda i ti wrth symud ymlaen a dy yrfa broffesiynol.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Rhian Medi a Tom Williams, Brynsiriol, ar enedigaeth Hali Magi ar y 10fed o Chwefror. Fe fyddai y ddiweddar Mrs. Maggie Jones yn falch iawn eich bod wedi cadw'r enw yn y teulu. Dymuniadau gorau i'r teuluoedd estynedig i gyd.

**Sioe Gerdd**

Llongyfarchiadau i Nel Evans, Ty'n Llan a gymerodd ran "Buddy" yn Sioe Gerdd "We will rock you" gan Ysgol Pen-glais yn ddiweddar. Mae Nel yn ddisgybl blwyddyn 6 yn yr ysgol ac yn astudio Drama, Saesneg a'r Cyfryngau. Roedd wrth ei bodd pan gafodd ei dewis i bortreadu "Buddy" ac fe'i cyflawnodd yn ardderchog. Tybed a fydd y chwaer yn dilyn ei brawd i RADA eto, hwyl hynt ar dy daith addysgol ac ymlaen.

**Profedigaeth**

Cydymdeimlwn â Mrs. Marie Howells, David, Ann a Richard a'u teuluoedd a hefyd a Mrs. Margaret Dryburgh ac Alistair a'r teulu wrth iddynt golli John ar y 4ydd o Fawrth. Bu John yn yr ysbyty sawl tro yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac roedd gofal y teulu a'r gofalwyr yn fawr drosto. Dyn ei filltir sgwâr oedd John ac wedi byw yn yr ardal gydol ei oes. bydd yn chwlth meddwl na chawn ei gwmni rhadlon ddim mwy. Rydych yn ein meddyliau a'n gweddïau y dyddiau rhain.

# Merched y Wawr – Melindwr

**Mis Chwefror**

Ymwelwyd â Choleg Ceredigion un prynhawn ym mis Chwefror. Roedd yn braf cael cwmni ein hysgrifennydd unwaith eto yn dilyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

Treuliwyd prynhawn diddorol iawn ym Mwyty Aberista o dan arweiniad Jim West, un o'r darlithwyr yn Adran Arlwyo a Lletygarwch y Coleg.

Cafwyd arddangosiadau gan rai o'r myfyrwyr yn y gegin yn ogystal â sylwebaeth. Rhoddwyd digon o gyfleoedd i ni'r gynulleidfa i ofyn cwestiynau. Braf iawn oedd cael cyfle i flasu yr amrywiol seigiau a gafodd eu gweini gan y myfyrwyr.

Roedd hi'n dipyn o dasg i'r myfyrwyr goginio o flaen cynulleidfa oedd hefyd yn cynnwys eu darlithwyr a'u cyd-fyfyrwyr a'u darlithwyr. Diddorol oedd cael cipolwg ar yr hyn sy'n digwydd o fewn yr adran a chlywed am lwyddiannau'r myfyrwyr.

Diolchwyd i'r darlithwyr a'r myfyrwyr am eu gwaith caled gan Eirwen McAnulty.

**Mis Mawrth**

Dathlu dydd Gŵyl Dewi a fyddwn fel arfer yn ein cyfarfod ym mis Mawrth ac nid







**Rygbi dan 18 oed**

Llongyfarchiadau i Deian Gwynne, Tynffordd ar ennill ei ail gap dros Gymru wrth chwarae rygbi ieuenctid dan 18 oed. Bu iddynt ennill yn erbyn tim Iwerddon ddechrau Mawrth. Mae angen chwaraewyr o'r calibr yma ar Gymru ar hyn o bryd, ymlaen bo'r nod. Dymuniadau gorau i ti i'r dyfodol.



Deian Gwynne a Steffan Jac Jones, Pontarfynach, ar ennill eu Capiau Cymru cyntaf dan 18.


# Telynores brysur



Darn arall gan Eira - gellir eu prynu o https://www.eiralynnjones.com

Mae'r delynores Eira Lynn Jones o Gapel Bangor wedi bod yn chwifio y faner dros Geredigion mewn gwaith newydd i delyn a dawns. Dydd Sul Mawrth 17 perfformiodd un o'i chyfansoddiadau *The Sunken Forest - Cantre'r Gwaelod*, yn Blackburn gyda'r cwmni dawns enwog DanceSyndrome.

Cyfansoddwyd y darn yn ystod cyfnod clo dros y gaeaf pan ofynnwyd iddi berfformio mewn cyngerdd arlein i Ŵyl Delynau Rhyngwladol Caeredin ar gyfer unawd telyn. Fe'i hysbrydolwyd gan chwedl Cantre'r Gwaelod. Mae ei chymeriad, Mererid, ar ddyletswydd noson y parti gynhaliodd y Brenin Cyfeillgar ond fe'i denir i ffwrdd gan gerddoriaeth ac mae'n anghofio siecio y giatiau / dorau oedd yn gwarchod yr ardal rhag y mor. Boddwyd a chollwyd 16 dinas




Yn ddiweddar ymddangosodd gweddillion coedwig foddedig ar draeth y Borth sydd yn rhoi crediniedd i'r chwedl. Mae y darn hefyd yn tynnu sylw at newid hinsawdd a'r ffaith fod lefel y cefnforoedd yn codi.

Breuddwyd Eira yn 2021 oedd y byddai y darn yn cynnwys llefarydd, dawnswyr a ffilm.

Rwan yn 2024 gwireddwyd hyn gyda pherfformiad o *The Sunken Forest* i delyn unigol wedi ei gyd-gynhyrchu sydd i'w weld ar YouTube https://www.youtube.com/watch?v=Gu5e10wsOxM

Yn ôl Eira "Bu gweithio gyda DanceSyndrome yn freuddwyd wireddwyd. Bu gallu mynd a'r delyn a fy ngherddoriaeth i blatfform gwahanol yn ysbrydoliaeth. Mae ymroddiad, ffocws a brwdfrydedd y grwp yma yn aros gyda mi am amser hir. Teimlais fy mod yn cael fy nerbyn a'm gwerthfawrogi fel cerddor, sydd mor werthfawr yn ystod yr amser anodd yma i'r celfyddydau. Rwyf hefyd yn falch i mi greu gwaith sydd yn amlygu hen chwedl Gymreig ac yn ei chysylltu gyda newid hinsawdd a chodi lefel y cefnforoedd heddiw.'

oedd eleni yn ddim gwahanol a hynny yng Nghanolfan Grefftau Rhydypennau. Croesawyd pawb gan y llywydd, Beti Daniel. Gofynnwyd bendith ar y bwyd gan Heulwen Lewis. Mwynhawyd te blasus iawn a sgyrsiau difyr yn ystod y prynhawn.

Ond dim ond dechrau oedd hyn. Croesawodd y llywydd ein gwraig wadd, sef Ann Mason Davies. 'Dathlu Gŵyl Dewi' oedd testun ei sgwrs a rhannodd wybodaeth am gyfeiriadau cynnar at ddathlu a gwyliau yn y Beibl. Roedd ôl paratoi manwl ar ei sgwrs a llwyddodd i grynhoi llawer o ffrwyth ei hymchwil am Dewi Sant a'i drosglwyddo mewn modd diddorol.

Dro ar ôl tro fe'n hatgoffwyd ganddi am gysylltiad Dewi Sant â Cheredigion.


Heulwen Lewis ddiolchodd iddi am ei sgwrs addysgiadol a diddorol ac i bawb a sicrhaodd ein bod wedi mwynhau treulio'r prynhawn yng nghwmni ein gilydd.

SIOP
SGIDIAU GWDIHW
8 Ffordd Portland, Aberystwyth SY23 2NL
01970 617092
Shan ac Alys Jones
GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodyddion /podiatryddion graddedig ac wedi cofrestru efo'r MRCPod

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
07813 338647

# Enwau lleoedd
## Angharad Fychan

Bydd y gair *gwern* am 'goeden o deulu'r fedwen sy'n dueddol o dyfu mewn tir corslyd neu laith' (*alder* yn Saesneg) yn gyfarwydd i amryw ohonoch, ond mewn gwirionedd mae mwy i'r ystyr na hynny. Yn ei gyfrol *Enwau Lleoedd* (1945; t.46-7) dangosodd Ifor Williams nid yn unig bod *gwernen* yn cynrychioli un goeden o'r fath, gyda *gwern* neu *gwernenni* yn ffurfiau lluosog, ond hefyd bod *gwern* fel enw




**Map Arolwg Ordnans 1:50,000 (2023)**
© Arolwg Ordnans (100064713)

benywaidd (*y wern*) yn golygu 'tir gwlyb lle bydd coed gwern yn dueddol o dyfu'. Mae'r ffurf hon ar y gair i'w gweld yn gyffredin mewn enwau lleoedd.

Fe'i ceir mewn enw dwy fferm sy'n rhannu'r un enw, *Pen-y-wern*, gwta filltir oddi wrth ei gilydd yn yr ardal rhwng y Borth a Thal-y-bont. Lleolir un ar law dde'r briffordd rhwng pentrefi Llandre a Dôl-y-bont (SN626877), tra bo'r llall yn gorwedd y tu draw i afon Eleri, ar war Cors Fochno (SN631893).

Tueddir i gyfeirio at y fwyaf gogleddol o'r ddwy fel *Pen-y-wern Henllys*, a hynny'n syml am ei bod yn gorwedd o fewn tref ddegwm *Henllys*, ond mae'r rheswm dros enw llawn yr ail *Ben-y-wern* yn dipyn o ddirgelwch.

Yng nghofiant Alan Llwyd i T. Gwynn Jones, *Byd Gwynn* (2019; t.394) cyfeirir at gyfaill iddo fel 'William Owen, fferm *Penywern Llygad yr Hwrdd*', sef *Pen-y-wern*, Llandre. Dyma'r unig gofnod ysgrifenedig o'r enw y deuthum ar ei draws, ond mae'r ffurf yn dal yn gyfarwydd i do hŷn yr ardal.

O edrych yn ôl ar ffurfiau hanesyddol yr enw, gwelwn iddo gael ei gofnodi yng nghofrestr plwyf Llanfihangel Genau'r-glyn yn 1837 fel *Penywern alias Bron Llygad yr Hwrdd* [1], ond *Tythŷn y wern otherwise Bron llygad hwrdd* a geir yn un o weithredoedd stad Gogerddan yn 1765 [2].

Awgryma hynny mai *Tyddyn-y-wern* oedd yr enw gwreiddiol ond i'r elfen *tyddyn* droi dros amser yn *pen*. Ymddengys hefyd bod y ffurf *Pen-y-wern Llygad yr Hwrdd* yn fath o gyfuniad a chywasgiad o'r enwau a gofnodwyd yng nghofrestr plwyf 1837.

Digwydd *Llygad-yr-hwrdd* fel enw am bwynt mwyaf gorllewinol Ynys Dinas oddi ar arfordir sir Benfro, ond nid yw arwyddocâd yr enw hwnnw, mwy na *Phen-y-wern Llygad yr Hwrdd*, Llandre, yn amlwg o gwbl!

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
**www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru**

1 Iwan Wmffre, *Place-Names of Cardiganshire* (2004) 1117.
2 Papurau Stad Gogerddan (LlGC) GFA 9/5/2.

# Negeseuon y Swyddfa Bost

Rydym i gyd yn derbyn llai o bost y dyddiau hyn wrth i'r arfer o ysgrifennu llythyrau a gyrru cardiau cyfarch leihau. A phan gawn lythyrau yn amlach na pheidio nid oes stamp arnynt ond y gair Whistl a sgwaryn bach yn ei ymyl yn dynodi 'Delivered by Royal Mail'. Ond mae rhai eithriadau, ac yn ddiweddar daeth sawl llythyr gyda stampiau oedd wedi eu ffrancio gyda'r neges "National Apprenticeship Week, 5-11 February 2024" neu Sefydliad Prydeinig y Galon (British Heart Foundation).




Mae fy nghymydog Mrs Joan Dare, Bwlchrosser, Bont-goch, y bu nifer yn ei chofio fel postfeistres Penrhyn-coch, wedi bod yn casglu'r negeseuon hyn ers degawdau, a'u gosod yn ddestlus mewn cyfrol swmpus. Amcangyfrifais fod yno dros 1000 o enghreifftiau o'r negeseuon amserol hyn wedi eu cofnodi yn ei chyfrol.

Bydd llawer yn cofio'r neges leol am dref Aberystwyth a ddefnyddiwyd yn y 1970au, sef "Haul-Môr-Golygfa", ac mae nifer o rai eraill a chysylltiadau Cymreig yn ei chasgliad, er bod y mwyafrif helaeth o'r enghreifftiau wedi eu postio y tu allan i Gymru. Ymhlith y rhai Cymreig ceir hysbysebion yn ein hannog i ddefnyddio maes awyrennau Y Rhws ac Abertawe, ac i fynychu'r Cardiff Searchlight Tattoo, y Cardiff Festival of 20th Century Music a phantomeim Brian Rix. Un arall diddorol i mi, oherwydd fy niddordeb mewn chwaraeon, oedd yr un i ddathlu canmlwyddiant Clwb Rygbi Castell-nedd yn 1971.

Mae Mrs Dare yn dal i'w casglu, a byddai'n siwr o groesawu unrhyw ychwanegiadau.
**Richard Huws**




# Madog, Dewi / Cefn-llwyd

**Marchnad Aberystwyth**
**2/3/2024**
881 Gwerthwyd y cyfan.
Fel y gwelwyd ar draws y marchnadoedd da byw roedd masnachu gwych eto yn enwedig ymhlith y mamogiaid tenau llai oedd yn edrych yn ddrud i'w cymharu a'r rhai mwy. Gwerthodd yr ŵyn blwydd hefyd yn dda.
Roedd y prisiau fel a ganlyn.
Brokers (456) Amcg £76.80, mwy £178 gan Bumford, Fferm Brynglas, Chancery.
Ŵyn blwydd (368) Amcg £88.80, mwy £159 gan Innovis, Peithyll, Capel Dewi.
Hyrddod (47) Amcg £95.90, mwy £148 gan Watkins, Henllys, Dôl-y-bont.
Fel hyn oedd hi heddiw. Prisiau da ar bopeth.
Diolch fel arfer i'n holl gynhyrchwyr a prynwyr am eich cefnogaeth.

**Eisteddfodol**
Llongyfarchiadau i Cadi Mitchell am ddod yn drydydd ar yr unawd Bl 3 a 4 yn Eisteddfod Gylch yr Urdd.

**Gwellhad buan**
Dymunwn wellhad buan i Mrs Myfanwy Pugh, Fron Ddewi, Capel Dewi ar ôl treulio ychydig ddyddiau yn Ysbyty Bron-glais. Ar y 16 o Ebrill bydd yn dathlu pen blwydd arbennig yn 90 oed. Mwynhewch yr achlysur a phob dymuniad da i'r dyfodol.

**Wyres newydd**
Llongyfarchiadau i Catherine a Dilwyn Thomas, Brynheulog ar enedigaeth wyres fach newydd. Ganwyd Halle i Amy a Carwyn ac mae'n chwaer fach i James a Harri.




## Cyngor Cymuned **Melindwr**

Cyfarfu'r Cyngor nos Iau Chwefror 15 yn Neuadd Capel Bangor. Roedd y Cynghorydd Sir Rhodri Davies, y cadeirydd, y clerc a saith cynghorydd cymuned yn bresennol.
Derbyniwyd cofnodion cyfarfod mis Ionawr fel rhai cywir.

Trafodwyd.

- Parc Chwarae a'r ffordd ymlaen.
- Diffibrilwyr – Mae padiau newydd wedi eu harchebu i ddiffibrilwyr Cwmrheidol, Capel Bangor, Goginan a Pant-y-crug.
- Bagiau baw cŵn – Gan fod baw cŵn yn broblem yn yr ardal penderfynwyd prynu bagiau priodol a'u rhoi o gwmpas yr ardal i berchnogion cŵn eu defnyddio.
- Gwefan Newydd Mae Cyngor Cymuned Melindwr yn y broses o ddatblygu a dylunio gwefan newydd. Maent yn awyddus i gynnwys lluniau fydd yn hysbysu agweddau deniadol o'r ardal.

Gwahoddir trigolion i ebostio lluniau sydd yn dangos agweddau o Ddyffryn Rheidol ar ei gorau. (cyngormelindwrcouncil@gmail.com).

Dyddiad cau Mawrth 31.

*Cyfarwyddwyr Angladdau*
*C. T. Evans*

*Perchnogion : Gwyn & Janet Evans*
*Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY23 5BS*

*Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn.*
*Wedi ei arwain yn Bersonol gyda Urddas.*
*Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Ddydd a Nôs.*

*Ffôn 01970 820013*
*ebost : gwyn@ ct-evans.com*

Croeso i deuluoedd
6 teledu gyda Sky Sports
Lle i eistedd tu allan a bwyty mawr
Bwrdd 'pool' a byrddau darts
Bwyty a Bwyd wedi'i gludo ar gael am ddim
Byddwn yn agor am 5.30 yn ystod yr wythnos am yr ychydig fisoedd nesaf.
TAFARN Y ROOSTERS
HOME OF/CARTREF I CPD PENRHYNCOCH FC
01970 828 992

Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?
Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion – Cêt Morgan, Fferm Glanfrêd

# Ysgol **Penrhyn-coch**

**Dysgu'r mis**
**Dydd Gŵyl Ddewi**
Braf oedd cael diddanu'r pentref fel rhan o'n dathliadau dydd Gŵyl Ddewi, gyda disgyblion hyn yn perffformio i Gawl y Gymuned yn Neuadd yr Eglwys dros ginio, a disgyblion dysgu sylfaen wedi cynllunio pared o gwmpas y pentref, a pherfformio caneuon o'u dewis y tu allan i garej Tŷ mawr. Diolch i bawb a ddaeth i'r garej i'n gwylio ni.

**Eisteddfod yr Urdd**
Braf oedd gweld cynnydd eleni yn nifer y disgyblion a fu'n cynrychioli'r ysgol wrth gystadlu fel unigolion yn Eisteddfod yr Urdd. Rydym mor falch o bob un a gystadlodd. Llongyfarchiadau gwresog i Leisia a gipiodd y 3ydd wobr yn Unawd Blwyddyn 2 ac iau. Cystadlom yng nghystadlaethau'r parti llefaru, côr a pharti Deulais. Gan ennill yr ail wobr ar gyfer cystadleuaeth y côr, a cyntaf ar gyfer parti Deulais a olygodd drip i Bontrhydfendigaid i gystadlu yn yr Eisteddfod Ranbarth.

Ynghyd a'r parti deulais roeddem yn hynod falch cael presenoldeb yng nghystadleuaeth y Cyflwyniad Dramatig a Dawnsio Gwerin ar lefel Rhanbarth. Bu llwyddiant, gyda'r parti deulais a'r cyflwyniad dramatig yn cipio'r ail wobr. Diolch o galon i Sara Gibson am ysgrifennu sgript deimladwy ar y thema 'Drwy dy lygaid di' a oedd yn adrodd hanes Maiia, un o'n disgyblion, ar ei thaith o'r Wcráin i Benrhyn-coch. Rydym yn ddiolchgar fel ysgol i bob un sydd wedi rhannu neges gyda ni fel ysgol am sut wnaeth y stori gyffwrdd â nhw.









## 'GYDA'N GILYDD GALLWN LWYDDO' – PENRHYN-COCH A PHEN-LLWYN AR Y CYD

**Eisteddfod ysgol**
Cychwynnodd ein mis o Eisteddfota gydag Eisteddfod yr ysgol. Roeddem yn hynod falch rhoi'r cyfle i bob un disgybl gystadlu yn unigol yn rhagbrofion yr Eisteddfod. Diolch i Lois Wyn am ymgymryd â diwrnod llawn o feirniadu'r rhagbrofion yn y ddwy ysgol. Diolch i'r rhieni hefyd am roi pob anogaeth fel cynulleidfa. Wedi dewis y buddugol, cafwyd prynhawn braf o gystadlu brwd gyda'r ddwy ysgol yn dod ynghyd yn Neuadd y Penrhyn. Yn ogystal â'r unigolion cystadlodd disgyblion yng nghystadlaethau canu ar y cyd, a chystadleuaeth canu'r P-Buzz oedd yn codi gwen ar bob un oedd yn gwylio! Uchafbwynt y prynhawn oedd seremonïau'r cadeirio. Gyda Mya James a Gwen Hughes yn fuddugol yn y gadair, a Gabriel Brown a Gwen Hughes yn cipio'r goron.

**Diwrnod y llyfr**
Dathliad ychydig yn wahanol oedd eleni i ddiwrnod y llyfr gyda'r ysgol yn croesawu gwesteion arbennig ar gyfer lawnsio llyfr newydd sbon a oedd yn gynnyrch i brosiect ar y cyd rhwng disgyblion Blwyddyn 2 ysgolion Ceredigion. Roedd y lawnsiad yn cael ei ddarlledu'n fyw i ysgolion eraill Ceredigion gyda chefnogaeth e-sgol. Roedd disgyblion wrth eu bodd yn darllen eu cyfraniad nhw i'r llyfr, ynghyd a darllen cyfraniadau ysgolion eraill ac anturiaethau Seren a Sbarc ar hyd lleoliadau enwocaf Ceredigion. Mae'r project wir wedi ysbrydoli disgyblion gyda nhw'n creu llyfrau stori ei hun.

**Rygbi**
Da iawn i'n tîm rygbi a gystadlodd yn nhwrnamaint yr Urdd. Ennill 2, colli 2 a cholli cyfle i fynd drwyddo i'r rownd nesaf o 1 pwynt. Daliwch ati

**Plannu coed**
Wedi derbyn 500 o goed gan Coed Cadw (y Woodland Trust) am ddim cafwyd prynhawn llwyddiannus o blannu coed ar dir y naill ysgol. Diolch i'r gwirfoddolwyr a ddaeth i blannu.

**Project y Gymdeithas Frenhinol (Royal Society)**
Rydym wedi bod yn ffodus o dderbyn grant o £3000 gan y Gymdeithas Frenhinol (Royal Society) ar gyfer ariannu project ar y cyd rhwng y ddwy ysgol a Phrifysgol Aberystwyth. Mae disgyblion hŷn y ddwy ysgol yn mwynhau mas draw'r profiad o ddefnyddio micro-bits i greu rhaglenni i greu tŷ gwydr awtomatig. Maen yn bresennol yn cynnal arbrofion i weld sut mae dŵr, golau a thymheredd yn effeithio ar dyfiant planhigion, ac yn defnyddio'r micro-bit i reoli amgylchedd y mae'r planhigyn yn tyfu ynddi. Diolch i Dr Patricia Shaw a Dr Tally Roberts am eu cefnogaeth ar y project yma.

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED

# Ysgol **Pen-llwyn**

**Wythnos Iechyd meddwl**
Cafwyd wythos arbennig yn llawn o weithgareddau ar y thema 'Mae gen I lais'! Creuwyd cylchoedd creadigol yn llawn gwybodaeth am ein teimladau a meddyliau. Cafon ni hefyd ymweliad arbennig dros y sgrin gyda Ysgol Sant Baruc ,Y Barri wrth I ni rannu gyda nhw yr hyn sydd yn bwysig yn ein bywydau ni.

**Eisteddfod yr Urdd**
Braf oedd cystadlu mewn llawer o gystadlaethau llwyfan eleni. Cafwyd cychwyn da I'r diwrnod wrth I Olivia ennill y llefaru I ddysgwyr a Niamh yn dod yn ail iddi! Yna yn y prynhawn buodd nifer o blant hŷn yr Ysgol yn cystadlu mewn partïon canu - cafodd y parti unsain 3ydd wrth iddynt ganu am 'Now a Ned' yna cipiodd y parti Cerdd Dant y wobr 1af! Campus iawn!




**Noson twmpath a Chawl Gŵyl Ddewi**
Cafwyd noson arbennig o dda wrth i ni ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi mewn steil! Trefnodd pwyllgor athrawon a rhieni noson dwmpath hyfryd wrth wahodd Criw Twmpath Aberystwyth atom. Paratowyd y cawl hyfryd gan Miss Cathy ac roedd yn fendigedig. Diolch i gigyddion Rattray am y cig hyfryd! Codwyd swm arbennig i'r Ysgol o £700 felly diolch I bawb a gyfranodd.

**Cwis Dim clem**
Jac, Anwen, Gruff a Gwen oedd yn rhan o'r tîm eleni…. Trefnwyd y cwis gan Rhodri Francis Cered a diolch iddo am sesiwn hwylus!







Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

COPI CYWIR
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

ADWEITHEG
Bethan Ifan
Aberystwyth
07375422608
Tocynnau rhodd ar gael

R.J Edwards a'i Fab
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mán
01970 820149

GWASANAETH GARDDIO MYNACH
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

# Ysgol **Craig yr Wylfa**





**DATHLIADAU**

**Dydd Gŵyl Dewi**

Pa ffordd well o ddathlu Dydd Gŵyl Dewi eleni na chael cyfle i baratoi pice ar y maen fel rhan o weithgareddau Ysgol y Goedwig. Roedd y plant wrth eu boddau'n cymysgu'r cynhwysion yn yr awyr agored ac wedi hoffi gweld eu cynnyrch yn cael ei goginio. A'r peth gorau oll, roedden nhw mor flasus.

Roedd hi'n hyfryd i weld cymaint o'r plant wedi dod i'r ysgol mewn lliwiau llachar Cymreig i ddathlu dydd ein nawddsant. Diolch yn fawr i'r staff am baratoi gweithgareddau addas ar gyfer y plant yn ystod y dydd.

**Blwyddyn Newydd Leuadol**

Mae'r plant yn mwynhau dod i wybod am draddodiadau eraill o gwmpas y byd ac mae dysgu am ddathliadau'r Flwyddyn Newydd Leuadol wastad yn gyfle da i gyflwyno beth sy'n bwysig i bobl eraill. Roedd creu dreigiau allan o foch y coed hefyd yn ffordd ddyfeisgar o gyfuno'r dathlu gyda gweithgareddau Ysgol y Goedwig

**YSGOL Y GYMUNED**

**Hwb y Borth**

Mae ein cysylltiad gyda'r Hwb Gymunedol yn parhau i fynd o nerth i nerth. Ar wahoddiad Rachel, aeth plant dosbarth y Dysgu Sylfaen am dro i Neuadd Uppington i fod yn rhan o weithgaredd arbennig i greu draig enfawr gan ddefnyddio gwastraff coch. Roedd hi'n hyfryd i ymuno gyda theuluoedd ifanc yr ardal i gryfhau'r cysylltiadau rhwng yr ysgol a'r gymuned.

Roedd plant Ysgol Craig yr Wylfa wedi mwynhau'n fawr a gobeithio y bydd cyfle i wneud rhywbeth tebyg eto yn fuan.

**Diwrnod y Llyfr**

Mae dathlu Diwrnod y Llyfr yn creu tipyn o gynnwrf bob amser a doedd eleni ddim eto yn ddim gwahanol. Gwelwyd y cymeriadau arferol i gyd ac roedd hi'n hwyl i weld y gwisgoedd lliwgar. Cofiwch wario'r talebau a mwynhewch y darllen.

I helpu gyda'r dathlu, roedd plant dosbarth y Dysgu Sylfaen wedi bod yn ymchwilio i fwyta'n iach ac wedi astudio'r llyfr Supertaten dros yr wythnosau diwethaf.

**Siarter iaith**

Fel rhan o'n gweithgarwch i hybu defnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol, roedd plant dosbarth y Dysgu Sylfaen wedi bod yn cynllunio stori ar y cyd gydag ysgolion eraill Ceredigion am y cymeriadau hoffus Seren a Sbarc. Mae'r llyfr *Bant â ni gyda Seren a Sbarc* bellach yn yr ysgol ac mae'n edrych yn lyfr lliwgar a hardd. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu ac yn enwedig plant ysgol Craig yr Wylfa wrth gwrs!

**Plant 3 oed?**

Cofiwch gysylltu gyda ni os oes gyda chi blentyn sydd yn 3 oed, cysylltwch gyda ni er mwyn i ni allu rhannu ein cynlluniau cyn ysgol gyda chi.

**Taith noddedig**

Ar ddiwrnod olaf y tymor (22/03/23) bydd y plant i gyd yn cymryd rhan mewn taith gerdded noddedig o'r ysgol i Ynys-las ac yn ôl. Pwrpas y daith gerdded hon yw codi arian er mwyn i'r ysgol barhau â gwersi nofio yn nhymor yr Haf. Mae nofio yn sgil bywyd sy'n bwysig i ni, yn enwedig byw ar lan y môr. Os hoffai unrhyw un noddi neu gyfrannu, rhowch wybod i ni. Diolch









# Ysgol **Rhydypennau**

**Eisteddfod yr Urdd**

Da iawn i bawb fuodd yn perfformio yn yr Eisteddfod Gylch yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol am lwyddo i gyrraedd y tri cyntaf-Unawd Blwyddyn 5 a 6 1af-Maddison Jones, 2il-Mari Roberts. Deuawd Blwyddyn 6 ac Iau 1af-Maddison a Mari; 2il- Seren Bates a Lilah Smith. Unawd Blwyddyn 3 a 4 3ydd-Cadi Mitchell. Unawd Cerdd Dant Blwyddyn 5 a 6-1af Leisi Myrddin. Unawd Cerdd Dant Blwyddyn 3 a 4-2il Bobi-Jo Myrddin. Llefaru Unigol Blwyddyn 2 ac Iau-3ydd Leusa Jenkins. Parti Unsain Blwyddyn 6 ac Iau-1af. Perfformiad Theatrig Blwyddyn 6 ac Iau-2il.

Da iawn i bawb fuodd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Ranbarth ym Mhontrhydfendigaid, cafwyd perfformiadau cofiadwy gan pob un. Llongyfarchiadau mawr i Leisi Myrddin blwyddyn 5 am gipio'r wobr gyntaf a phob hwyl iddi yn Eisteddfod Maldwyn fis Mai.



Prosiect Plannu Prifysgol Aberystwyth.



Y tîm rygbi.



Blwyddyn un yn dathlu Dydd Gwyl Dewi.



Leisi yn fuddugol yn yr Unawd Cerdd Dant.



'Becws' yn coginio



Blwyddyn 2 yn dathlu Diwrnod Y Llyfr.

**Prosiect Plannu**

I ddathlu sefydlu Prifysgol Aberystwyth yn gant a hanner oed, braf oedd bod yn rhan o'u prosiect plannu coed yn ddiweddar. Aeth Llysgenhadon Blwyddyn 6 i Bentref Jane Morgan ddiwedd mis bach er mwyn plannu coeden arbennig ym mherllan y Brifysgol. Fe blannodd Izzy a Wil goeden afal 'Gelli Aur' gan obeithio y bydd hi'n dwyn ffrwyth yn y dyfodol agos!

**Dydd Gŵyl Dewi**

Yn ystod ein dathliadau Gŵyl Dewi eleni, cafodd y plant gyfle i wisgo gwisg Gymreig, dysgwyd am hanes bywyd Dewi Sant a mwynhaodd y plant llond bol o gawl cennin a bara brith i ginio.

I ychwanegu at y dathlu, cafodd plant blwyddyn 1 a 2 gwmni Beca o fusnes coginio 'Becws' a buont yn brysur iawn yn coginio toreth o bice blasus. Am wledd!

**Diwrnod y Llyfr**

Eleni dathlwyd Diwrnod y Llyfr ar y 7fed o Fawrth. Trefnwyd nifer o weithgareddau difyr yn ystod y dydd a chafodd pawb ddigon o amser i fwynhau cyfnodau o ddarllen er mwyn pori trwy amrywiaeth o lyfrau.



Plant y Meithrin yn dathlu Dydd Gwyl Dewi.

**Canmoliaeth**

Da iawn i'r tîm rygbi fu'n brwydro yng nghystadleuaeth Rhanbarth yr Urdd yn Nhregaron. Chwaraeodd aelodau'r tîm yn arbennig o dda.

Da iawn i'r pedwar o flwyddyn 6 fu'n cynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth 'Cwis Dim Clem' yn diweddar. Da iawn Jack, Mari, Chloe a Wil!

**Clwb Cant**

Canlyniad Chwefror
1af - £25-Glenys Mathias
2il - £15-Mike Davies
3ydd-£10-Mark Gittins

# Tasg y Tincer

Diolch yn fawr i'r pump fu'n brysur yn lliwio: Math Lewys Roberts, Bont-goch; Cadi a Gwydion George, Caerdydd; Sara Hatfield, Bont-goch; Elsi Wynn Lewis, Capel Bangor.


Dy enw di, Sara, ddaeth o'r het yn gynta. Llongyfarchiadau mawr!




Sara

Ydech chi wedi clywed am 'Ramadan'? Mae Ramadan yn ŵyl bwysig i Fwslemiaid dros y byd. Mae'n para am fis, ac ry'n ni yng nghanol cyfnod yr ŵyl ar hyn o bryd. Dyw Mwslemiaid ddim yn bwyta pan mae'n olau dydd – rhwng gwawr a machlud. Maen nhw'n cael un pryd cyn y wawr, o'r enw Suhoor, ac un arall ar ôl y machlud o'r enw Iftar. Mae Ramadan yn gyfnod i weddïo, a mynd i adeilad arbennig o'r enw 'mosg'. Bydd Mwslemiaid yn cael dathliad mawr ar y diwedd – Eid ul-Fitr – pryd byddan nhw'n cael gwledd, yn gwisgo'u dillad gorau, ac yn dathlu efo'r teulu. Mae rhoi arian i achosion da a helpu eraill yn rhan bwysig iawn o'r ŵyl.

Ac mae bron yn gyfnod y Pasg hefyd, pryd byddwn ni'n cofio am Iesu Grist ac yn dathlu bywyd newydd. Mae'r wy yn symbol o fywyd newydd. Sawl wy Pasg siocled fyddwch chi'n ei gael?



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn | Oed

Y mis hwn beth am liwio'r wyau Pasg? Mae un heb ei addurno – gewch chi ddewis y cynllun! Anfonwch eich lluniau o'r wyau Pasg lliwgar at y cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn 1 Ebrill. Ta ta tan toc, a mwynhewch eich gwyliau Pasg, pan ddôn nhw!



ISSN 0963-925X

9 770963 925009 >

Rhif 467 | Mawrth 2024